

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Archwilio Perfformiad

Dyddiad: 1 Mehefin 2016

Rhif Union: 01824 712554

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 9 MEHEFIN 2016 am 9.30 am yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 PENODI IS-GADEIRYDD (Tudalennau 5 - 6)**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2016/17.

#### **3 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 26)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad (copi ynghlwm) a gynhaliwyd ar:

- 12 Ebrill 2016 a
- 28 Ebrill 2016

**9.40 a.m. – 9.45 a.m.**

**6 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL - CHWARTER 4 2015/16** (Tudalennau 27 - 76)

Ystyried adroddiad gan Reolwr y Tîm Cynllunio Strategol (copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor fonitro perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei Gynllun Corfforaethol, a nodi meysydd neu wasanaethau penodol a fyddai'n elwa o archwilio manwl er mwyn gwella canlyniadau i ddinasyddion.

**9.45 a.m. – 10.15 a.m.**

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD CORFFORAETHOL, DIOGELWCH A LLES 2015/16** (Tudalennau 77 - 128)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (copi ynghlwm) i ddarparu diweddariad blynyddol ar Reoli Iechyd a Diogelwch o fewn Cyngor Sir Ddinbych.

**10.15 a.m. – 10.45 a.m.**

~~~~~ **EGWYL (10.45 a.m. – 11.00 a.m.)** ~~~~~

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL: 2015/16** (Tudalennau 129 - 170)

Ystyried adroddiad gan y Pen Reolwr: Cymorth i Fusnesau (copi ynghlwm) i alluogi'r Aelodau i archwilio'r adroddiad drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

**11.00 a.m. – 11.30 a.m.**

**9 ADRODDIAD EICH LLAIS – CHWARTER 4 2015/16** (Tudalennau 171 - 186)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Cwynion Corfforaethol (copi ynghlwm) i geisio barn y Pwyllgor ar berfformiad y Cyngor wrth ddelio â chwynion, ac iddo nodi meysydd i'w harchwilio'n fanwl yn y dyfodol.

**11.30 a.m. – 12.00 p.m.**

**10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 187 - 210)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**12.00 p.m. – 12.15 p.m.**

**11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

**12.15 p.m. – 12.20 p.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Barry Mellor  
(Cadeirydd)

Raymond Bartley  
Meirick Davies  
Huw Hilditch-Roberts  
Colin Hughes  
Geraint Lloyd-Williams

Dewi Owens  
Arwel Roberts  
Gareth Sandilands  
Joe Welch

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Swydd Ddisgrifiad Cadeirydd/Is-Gadeirydd Archwilio

### 1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

### 2. PWRPAS Y RÔL

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Asesu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

### 3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
  - Balchder
  - Hygrededd
  - Parch
  - Undod
- Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
- Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
- Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.
- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

## **Role Description Scrutiny Chair/Vice-Chair**

### **1. PRINCIPAL ACCOUNTABILITIES**

- To Full Council

### **2. PURPOSE OF ROLE**

- Providing leadership and direction
- To participate fully in the activities of the Scrutiny Committee, the development and delivery of its work programme and any associated task and finish groups.
- To assist in the development and monitor impact of Council policy
- To hold the executive to account, monitoring performance and service delivery and challenge decisions through the call in arrangements where appropriate.
- To develop a forward work programme of the committee.
- To report on progress against the work programme to Council, and others as appropriate
- To provide confident and effective management of meetings to facilitate inclusivity, participation and clear decision making ensuring that meeting objectives are met, and the code of conduct, standing orders and other constitutional requirements are adhered to.
- To act as a focus for liaison between the council, community and external bodies in relation to the scrutiny function.
- To encourage effective contributions from all committee members in both committee and task and finish groups
- To assess individual and collective performance within the committee and liaise with the relevant Group Leader to progress training and development opportunities.
- Fulfil the accountabilities of the elected member role.

### **3. VALUES and EXPECTATIONS**

- To be committed to the values of Denbighshire County Council and the following values in public office:
  - Pride
  - Integrity
  - Respect
  - Unity
- Attend all relevant meetings
- Carry out business electronically i.e. meetings and communication, wherever possible
- To attend mandatory training as specified in the code of conduct and the constitution.
- To participate in an annual development review to continually improve the performance of the member and the Council.
- To explain and account for personal performance as a County Councillor on a regular basis, particularly through the publication of an Annual Report on the Council's web site.

**Cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 12 Ebrill 2016 am 2.00 pm yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Wynnstay Road, Rhuthun, LL15 1YN**

## **Yn bresennol:**

Cynghorwyr Raymond Bartley, Meirick Davies, Huw Hilditch-Roberts, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor (Cadeirydd), Dewi Owens, Arwel Roberts, Gareth Sandilands a Joe Welch

## **Hefyd yn bresennol:**

M Mehmet (Prif Weithredwr), N Stubbins (Cyfarwyddwr Corfforaethol : Cymunedau), P Gilroy (Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol) a T Ward (Prif Reolwr, Cymorth Busnes).

Cynghorydd Joan Butterfield, Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, Cynghorydd Ann Davies, Cynghorydd Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion a Phlant), Cynghorydd Alice Jones, Cynghorydd Huw Jones, Cynghorydd Gwyneth Kensler, Cynghorydd Jason McLellan, Cynghorydd Cefyn Williams a Cynghorydd Eryl Williams

## **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Colin Hughes a Win Mullen-James (Cadeirydd Grŵp Tasg a Gorffen Dyfodol Gofal Cymdeithasol Mewnol).

Talodd y Cadeirydd deyrnged i'r diweddar Gynghorydd Richard Davies, aelod o'r Pwyllgor a'r Grŵp Tasg a Gorffen, a fu farw'n ddiweddar. Cydymdeimlwyd â'i deulu ac fel arwydd o barch safodd pawb ar eu traed am funud o dawelwch.

## **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Mewn ymateb, dywedodd y Cydlynnydd Archwilio fod y Grŵp Tasg a Gorffen wedi ei sefydlu gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad i wneud darn o waith ar ei ran. 2016. Roedd ei aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o bob pwyllgor archwilio. Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn is-grŵp o'r Pwyllgor Archwilio y gofynnwyd iddynt edrych yn fanylach ar ofal cymdeithasol mewnol a llunio adroddiad ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor llawn. Nid oedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi gwneud unrhyw benderfyniadau gan nad oedd ganddo bwerau i wneud penderfyniadau. Ei waith oedd adrodd ar y canfyddiadau, ac ar sail y canfyddiadau hynny, gwnaed argymhellion i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn y cyfarfod hwn. Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle i'r Pwyllgor i archwilio'r canfyddiadau a'r cynigion a gyflwynwyd cyn llunio argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet eu cymeradwyo ddiwedd Mai 2016.

O ran arsylwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Tasg a Gorffen, ailadroddodd y Cydlynnydd Archwilio fod y Grŵp Tasg a Gorffen yn 'grŵp caeedig' a oedd yn gweithio ar ran y pwyllgorau archwilio, ac felly nad oedd yn arferol caniatáu i arsylwyr fod yn bresennol.

Gwnaed cais gan y Cyngorydd Roberts i nodi bod hyn yn annheg iawn yn ei farn ef.

Bu i'r Cyngorydd Jason McLellan ddatgan cysylltiad personol ag eitem fusnes 4 mewn perthynas â'i waith yn swyddfa etholaeth Ann Jones AC – roedd copi o ymateb yr AC i'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys mewn atodiad i'r adroddiad y byddai'r Pwyllgor yn ei ystyried.

### **3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw eitemau a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972

### **4 ADOLYGU AC YMGYNGHORI AR WASANAETHAU GOFAL MEWNOL**

Cyn cyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cadeirydd fod cryn ddiddordeb wedi bod yn yr adolygiad hwn, a bod cynghorwyr wedi derbyn nifer fawr o e-byst a gohebiaeth arall yn ei gylch. O ran trafod yr eitem fusnes hon, esboniodd y byddai'n rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau'n gyntaf, ac yn dilyn hynny, byddai cyfle i aelodau heb fod ar y pwyllgor archwilio ofyn cwestiynau, cyn gofyn i'r Pwyllgor lunio argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet.

Cyflwynodd y Cyngorydd Meirick Lloyd-Davies, cyn Gadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen yr adroddiad yn absenoldeb y Cadeirydd presennol. Esboniodd y Cyngorydd Lloyd-Davies fod y Grŵp Tasg a Gorffen yn grŵp a oedd yn wleidyddol a daearyddol gytbwys y gofynnwyd iddynt edrych ar opsiynau gwerth am arian ar gyfer darparu gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yn y Sir. Pwysleisiodd fod y tybiaethau cychwynol wedi newid ar sail y dystiolaeth a gafwyd wrth i'r broses fynd yn ei blaen.

Roedd y Grŵp wedi cyfarfod naw gwaith dros y ddwy flynedd diwethaf. Roedd wedi goruchwilio'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r ymarferiad 'gwrando ac ymgysylltu' a oedd wedi arwain at ddatblygu'r opsiynau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Ar 17 Mawrth 2016 cyflwynodd y Swyddogion yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Grŵp Tasg a Gorffen. Yna paratôdd y Grŵp yr argymhellion yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwn, i'w harchwilio a gwneud sylwadau arnynt cyn eu cyflwyno i'r Cabinet ar 24 Mai 2016.

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol y dystiolaeth yn deillio o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol gwasanaethau gofal mewnol Sir Ddinbych. Esboniodd sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol ag Egwyddorion Cyfreithiol Gunning 1985 o ran ymgynghori er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â disgwyliadau cyfreithiol.



Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol yr achos dros yr angen i newid gwasanaethau gofal mewnol:

- Er bod nifer y bobl hŷn yn cynyddu, roedd y galw am ofal preswyl safonol a gwasanaethau dydd yn Sir Ddinbych wedi bod yn lleihau ers sawl blwyddyn, ac roedd yn dal i leihau;
- Roedd y galw am ddewisiadau mwy galluogol o'i gymharu â gofal preswyl safonol (fel Tai Gofal Ychwanegol) yn cynyddu, ac roedd y galw am Dai Gofal Ychwanegol n Sir Ddinbych heb ei ddiwallu, yn ogystal ag iechyd meddwl mwy arbenigol a chartrefi nyrsio;
- Roedd ymchwil yn dangos bod canlyniadau i bobl a oedd yn byw mewn Tai Gofal Ychwanegol yn well o'u cymharu â chanlyniadau i bobl a oedd yn byw mewn gofal preswyl safonol;
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyflwynwyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ganolbwyntio ar alluogi pobl i barhau i fod mor annibynnol â phosibl am gyhyd â phosibl;
- Roedd cost rhedeg gwasanaethau gofal mewnol yn uchel o'i gymharu â chomisiynu gwasanaethau gan y sector annibynnol, ac o'i gymharu â chost cefnogi pobl i fyw mewn Tai Gofal Ychwanegol.

Ar ôl i'r Grŵp Tasg a Gorffen gwblhau ei waith cyflwynwyd yr opsiynau canlynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus:

#### Opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer Hafan Deg (Rhyl)

1. **Yr opsiwn a ffefrir gan y Cyngor:** Bydd y Cyngor yn ffurfio partneriaeth â sefydliad allanol a throsglwyddo'r adeilad iddynt, gan gomisiynu gwasanaeth gofal dydd yn yr adeilad ac, yn ogystal â hyn, yn galluogi asiantaethau'r trydydd sector i ddarparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl hŷn a fydd yn lleihau unigedd cymdeithasol, yn cefnogi annibyniaeth ac yn hybu gwytnwch.
2. Ail-ddarparu gwasanaethau yn Hafan Deg gyda'r posibilrwydd y byddai'r ganolfan yn cau a'r defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn cael cymorth i ddod o hyd i ddarpariaeth addas arall.
3. Byddai'r cyngor yn ystyried unrhyw ddewis neu opsiwn arall a roddid gerbron a fyddai'n bodloni'r galw am lefydd gofal dydd a gweithgareddau cymdeithasol o fewn yr adnoddau ar gael.
  - Yr unig opsiwn arall a roddwyd gerbron yn ystod yr ymgynghoriad oedd i'r cyngor barhau i redeg Hafan Deg ei hun. Dim ond o fewn ymateb UNSAIN yr edrychwyd yn fanwl ar hwn.

### Opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer Dolwen (Dinbych)

1. **Yr opsiwn a ffefrir gan y Cyngor:** Bydd y cyngor yn ffurfio partneriaeth gyda sefydliad allanol a throsglwyddo'r gwasanaeth cyfan iddynt, gan sicrhau bod Dolwen wedi cofrestru i ddarparu gofal lechyd Meddwl yr Henoed.
2. Gwerthu neu osod Dolwen ar les i bwrpas arall. Byddai'r cartref yn cau a'r defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn cael cymorth i ddod o hyd i ddarpariaeth addas arall.
3. Byddai'r cyngor yn ystyried unrhyw opsiynau eraill a roddid gerbron a fyddai'n bodloni'r galw am lefydd gofal dydd a phreswyl o fewn yr adnoddau ar gael.
  - Yr unig opsiwn arall a roddwyd gerbron yn ystod yr ymgynghoriad oedd i'r cyngor barhau i redeg Dolwen ei hun. Dim ond o fewn ymateb UNSAIN yr edrychwyd yn fanwl ar hwn.

### Opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer Awelon (Rhuthun)

1. **Yr opsiwn a ffefrir gan y Cyngor:** Atal derbyniadau newydd a gweithio gyda'r unigolion a'u teuluoedd ar gyflymder sy'n addas ar eu cyfer nhw, i'w symud i ddewisiadau amgen addas, fel y bo'n briodol, a ffurfio partneriaeth â pherchennog Llys Awelon i ddatblygu mwy o fflatiau Gofal Ychwanegol ar y safle. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gofyn i unrhyw un o'r preswylwyr adael Awelon os nad ydynt eisiau gadael a gellir parhau i ddiwallu eu hanghenion yno.
2. Gweithio mewn partneriaeth â landlord cymdeithasol cofrestredig, gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu dewis o wasanaethau, trosglwyddo hanner yr adeilad i ddatblygu mwy o fflatiau gofal ychwanegol, o bosibl fel estyniad i Lys Awelon, gan ddefnyddio'r gweddill fel uned breswyl fach y gellid ei defnyddio i fodloni'r galw cynyddol am ofal seibiant a sicrhau na fyddai angen i unrhyw un o'r preswylwyr presennol symud oni bai eu bod yn dewis gwneud hynny.
3. Byddai'r cyngor yn ystyried opsiwn arall a fyddai'n bodloni'r galw am lefydd preswyl a gofal dydd o fewn yr adnoddau ar gael.

Opsiynau eraill a gyflwynwyd ar gyfer Awelon:

#### **Opsiwn 3a** – cyflwynwyd gan Unsain:

- Archwiliwyd/eglurwyd cynigion UNSAIN yn fanwl o fewn yr ymateb llawn gan UNSAIN (Atodiad K a gylchredwyd yn flaenorol), hynny yw, y cynnig i'r cyngor barhau i fod yn berchennog ar Awelon a'i redeg ei hun a bod hyn yn cael ei ariannu drwy gynnydd ychwanegol yn Nhreth y Cyngor.

**Opsiwn 3b** – awgrymwyd gan Aelod Etholedig:

- Awgrymwyd y gallai'r cyngor ystyried adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ar un o'r safleoedd ysgolion gwag yn Rhuthun (ar ôl ad-drefnu'r ysgolion). Byddai hyn yn bodloni'r galw am Dai Gofal Ychwanegol yn Rhuthun, ac yn fodd i safle Awelon barhau fel y mae ar hyn o bryd.

Opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer Cysgod y Gaer (Corwen)

1. **Yr opsiwn a ffeirir gan y Cyngor:** Byddai'r cyngor yn ffurfio partneriaeth gyda'r budd-ddeiliaid perthnasol (gan gynnwys PBC a'r trydydd sector) i ddatblygu'r safle yn 'ganolfan gefnogaeth' gan gynnwys cyfleusterau gofal preswyl a gofal ychwanegol ynghyd â gofal yn y cartref allanol a gwasanaeth cefnogaeth i denantiaid Cynlluniau Tai Gwarchod lleol a phoblogaeth ehangach Corwen a'r ardal gyfagos.
2. Byddai'r cyngor yn gwrthod unrhyw dderbyniadau newydd ac yn gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd ar gyflymder sy'n addas ar eu cyfer nhw, i'w symud i ddewisiadau amgen addas, fel y bo'n briodol, a thrafod gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddatblygu fflatiau Gofal Ychwanegol ar y safle cyfan.
3. Byddai'r cyngor yn ystyried opsiynau eraill a roddid gerbron a fyddai'n bodloni'r galw am lefydd preswyl a gofal dydd o fewn yr adnoddau ar gael.

Ni chyflwynwyd unrhyw opsiynau ar gyfer Cysgod Y Gaer yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Rhoddodd y Prif Reolwr – Cymorth Busnes drosolwg o'r digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd a chrynodeb o'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Dywedodd fod:

- mwy o bobl wedi ymateb i'r ymgynghoriad am Ddolwen nag unrhyw un o'r 3 ymgynghoriad arall.
- roedd mwyafrif yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holi lle oedd eu tref agosaf yn byw yn Ninbych (neu gerllaw) .
- roedd mwyafrif y rhai a atebodd y cwestiwn hwn i ddatgan eu diddordeb yn dosbarthu eu hunain fel aelodau'r cyhoedd, er bod nifer yn ffrindiau neu berthnasau i'r defnyddwyr gwasanaeth presennol.
- roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd dros 60 oed
- roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd yn nodi eu bod yn Gymry yn y cwestiwn ar genedligrwydd.
- roedd mwy na thraean y rhai a atebodd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac

- ychydig iawn o bobl a ymatebodd a oedd yn ffafrio unrhyw un o'r opsiynau a gyflwynwyd. O blith y rhai a ddewisodd opsiwn, dewisodd llai na hanner opsiwn gwahanol i'r opsiwn a ffefrid gan y cyngor (h.y. naill ai Opsiwn 2 neu Opsiwn 3).

Dyweddodd Prif Reolwr – Cymorth Busnes mai'r prif gasgliadau'n deillio o'r ymgynghoriad oedd:

- Bod gwrthwynebiad cyffredinol o'r ymatebion cyfyngedig a dderbyniwyd i gynigion i newid ein gwasanaethau mewnol
- Ac eithrio Cysgod y Gaer, ychydig o gefnogaeth a gafwyd o fewn yr ymatebion hyn i'r opsiynau a ffefrid gan y cyngor.
- Roedd nifer o bobl yn cydnabod manteision Tai Gofal Ychwanegol, ond ychydig iawn o ymatebwyr a oedd yn credu y gallai fod yn ddewis posibl yn lle gofal preswyl safonol. Nid oeddent yn sylweddoli y gallai gofal seibiant, a'i fod yn gynyddol, yn cael ei gynnig mewn cyfleusterau Gofal Ychwanegol;
- Nid oedd llawer o bobl yn credu bod y galw am ofal preswyl safonol yn lleihau, ac oeddent yn meddwl bod y Cyngor wedi bod yn gwrthod mynediad i bobl i wasanaethau mewnol ers i'r adolygiad ddechrau.

Dyma gynigion eraill a gyflwynwyd:

- Ychydig iawn o gynigion eraill a gyflwynwyd (yn ychwanegol at "dim newid"), ac ni roddodd y rhan fwyaf o bobl a oedd yn gwrthwynebu newid unrhyw resymeg dros y safbwynt hwnnw, a/neu ddim tystiolaeth i gefnogi eu dadl.
- Cyflwynodd Unsain opsiynau eraill ar gyfer Dolwen, Awelon a Hafan Deg. Gellir crynhoi'r rhain (ar lefel uchel iawn) fel rhai sy'n cynyddu treth y cyngor i alluogi i'r cyngor gadw'r gwasanaethau presennol.
- Dewis ychwanegol arall ar gyfer Awelon oedd adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ar safle gwag yn Rhuthun (ar ôl ad-drefnu ysgolion). Byddai hyn yn bodloni'r galw am Dai Gofal Ychwanegol yn Rhuthun, ac yn galluogi i safle Awelon barhau fel yr oedd. Roedd hwn yn ddewis posibl, ond nid oedd yn mynd i'r afael â materion cost na'r ffaith bod llai o alw am ofal preswyl.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd roedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn argymhell i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r opsiynau a ffefrid. Sail y rhesymeg hon oedd:

- Nad oedd yr ymgynghoriad wedi darparu unrhyw resymeg neu dystiolaeth gymhellol i gyfiawnhau addasu'r opsiynau a ffefrid.
- Roedd achos ariannol cryf dros yr opsiynau a ffefrid ar gyfer Dolwen a Hafan Deg, ac achos ariannol sylweddol mewn perthynas ag Awelon.

- Gellid lliniaru, mewn rhyw ffordd, yn erbyn yr holl effeithiau negyddol posibl ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, staff a phobl a rannai nodweddion gwarchoddedig.
- Roedd yr holl gynigion posibl eraill a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi eu gwerthuso fel rhai llai ymarferol a/neu gynaliadwy na'r opsiynau a ffeirir gan y Cyngor.

Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi dod i'r casgliad y byddai gwasanaethau gofal a chefnogi ar gyfer pobl hŷn yn Sir Ddinbych yn well, ac yn fwy cynaliadwy, pe bai'r opsiynau a ffeirir yn cael eu gweithredu, ac felly roedd yn gofyn am gefnogaeth y Pwyllgor i gyflwyno'r cynigion i'r Cabinet eu cymeradwyo.

Yna estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau.

Awgrymodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts nad opsiynau a ffeirid gan y Cyngor oedd y rhain ond yn hytrach opsiynau a ffeirid gan y Cabinet. Roedd yn canmol yr estyniad i'r cyfnod ymgynghori a theimlai ei fod wedi bod yn drylwyr. Serch hynny, teimlai fod yr wybodaeth a oedd yn cael ei hadrodd yn ôl yn llai cynhwysfawr ac na fyddai aelod cyffredin o'r cyhoedd yn gallu cynnig opsiwn arall gan na fyddai digon o wybodaeth a data ar gael iddynt i gefnogi unrhyw gynnig. Byddai wedi hoffi cael eglurhad manylach ynglŷn â:

- pha dystiolaeth yr oedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi ei defnyddio i wneud ei argymhellion;
- glasbrintiau i gefnogi'r weledigaeth o safbwynt yr opsiynau a ffeirid;
- rhesymeg a ystyriwyd o ran pam na chefnogwyd opsiynau eraill;
- asesu gofynion gofal, a oeddent wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf;
- p'un ai a oedd trafodaethau wedi eu cynnal rhwng yr Awdurdod â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a meddygon teulu; a
- dichonolrwydd yr opsiwn arall a gynigid ar gyfer Awelon gyda chyfleusterau gofal ychwanegol posibl ar safle ar wahân neu ddatblygu uwch safle.

Gofynnodd y Cynghorydd Welch am gadarnhad p'un ai arbedion oedd y brif ystyriaeth wrth wneud yr argymhelliad ar gyfer Dolwen. Hefyd mynegodd y pryderon canlynol:

- o blith y 118 o ymatebion i ymgynghoriad Dolwen dim ond 7 a oedd wedi dweud ei bod yn well ganddynt opsiwn 1, sy'n awgrymu bod 93% o'r ymatebion yn erbyn yr argymhelliad;
- diffyg manylion gydag opsiwn 1 a argymhellir;

- cyfrifo arbedion posibl yn erbyn 24 o breswylwyr yn hytrach na phe bai'n llawn;
- diffyg costïadau eraill yn erbyn nifer y preswylwyr;
- a oedd unrhyw dystiolaeth ar gael y gallai darparwyr preifat gymryd drosodd a rhedeg Dolwen neu'r sefydliadau eraill, a gwneud elw gyda'r busnes; a
- beth fyddai'n digwydd pe byddai darparwr annibynnol yn cymryd drosodd Dolwen ac yna'n penderfynu ar ôl 12 mis na allai fforddio parhau â'r ddarpariaeth;

Holodd y Cynghorydd Sandilands ynghylch ansawdd y gofal ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth a sicrwydd darpariaeth. Gofynnodd am farn y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Iechyd Cymuned ynglŷn â'r cynigion, pa ddarparwyr annibynnol a oedd wedi eu hystyried i ddarparu gwasanaeth addas ac ansawdd y darparwyr hynny, a pha mor dda yr oedd awdurdodau eraill yn gweithio gyda'r trydydd sector ym maes gofal cymdeithasol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Bartley, aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen, fod Dolwen wedi bod yn darparu gofal o ansawdd uchel am 50 mlynedd. Roedd yn awyddus i Ddolwen aros yn agored a pharhau i ddarparu gofal - gofal dydd, gofal i'r Henoed gydag anghenion Iechyd Meddwl (EMH) a gofal preswyl yn Ninbych. Gofynnodd y Cynghorydd Bartley am sicrwydd y byddai'r cleientiaid Cymraeg eu hiaith yn parhau i dderbyn eu gofal yn eu dewis iaith ac y byddai amodau gwaith staff yn aros yr un fath.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Roberts at brofiad cadarnhaol diweddar o fewn ei deulu o ran derbyn gofal preswyl awdurdod lleol a gofynnodd a oedd gofal mewn cartrefi annibynnol o safon debyg. Mynegodd bryderon fod y sector annibynnol hefyd yn cau cartrefi oherwydd yr hinsawdd ariannol, ac y byddai'n well ganddo gadw Dolwen a'r sefydliadau eraill yn nwylo'r awdurdod lleol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Lloyd-Williams at y bwriad i ad-drefnu Awdurdodau Lleol a gofynnodd a ddylid bod wedi ystyried yr amgylchiadau mewn awdurdodau cyfagos a'r posibilrwydd o uno. Holodd ynghylch nifer y cartrefi gofal preswyl a oedd yn cael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol mewn awdurdodau cyfagos.

Gofynnodd y Cynghorydd Lloyd-Williams pam – o ystyried fod Sir Ddinbych wedi cytuno bod angen gwneud mwy o arbedion yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol – na allai gydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i gadw'r cyfleusterau/adeiladu cyfleusterau newydd a darparu'r gwasanaethau. Roedd pryderon eraill a leisiwyd yn cynnwys:

- roedd oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbytai eisoes yn broblem ac felly byddai'n mynd yn waeth pe byddai llai o lefydd gofal preswyl ar gael;
- posibilrwydd y byddem yn cystadlu yn erbyn darparwyr annibynnol;
- a oedd unrhyw dystiolaeth fod darparwr annibynnol eisiau cymryd Dolwen drosodd;

- beth fyddai'n digwydd pe byddai pethau'n mynd o'i le a'r Awdurdod yn gorfod camu i mewn

Ar y pwynt hwn, agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a gwahoddodd gwestiynau o'r llawr. Gofynnodd y Cynghorydd Butterfield y cwestiynau canlynol:

- sut gallai'r Pwyllgor wneud unrhyw argymhellion heb gael dogfennau ategol
- ble'r oedd yr wybodaeth ariannol a ddefnyddiwyd i wneud yr argymhellion
- a ddylid ymchwilio i gynnydd yn Nhreth y Cyngor er mwyn darparu gofal preswyl/dydd; a
- beth fyddai'n digwydd pe na fyddai partneriaid newydd yn gallu gwneud eu gwasanaeth yn fusnes llwyddiannus - a oedd yna Gynllun B.

Roedd hefyd o'r farn y dylai'r Cyngor llawn drafod y cynigion.

Adleisiodd y Cynghorydd McLellan bryderon ynglŷn â'r cysyniad o ddewis yr opsiwn a ffefrir heb wybodaeth pwy fyddai'r partneriaid a ph'un ai a oedd unrhyw dystiolaeth fod awydd yn y sector preifat i lunio partneriaethau o'r fath. Cyfeiriodd at adroddiadau Arolygiaeth Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn y gorffennol a oedd wedi tynnu sylw at bryderon difrifol mewn rhai cartrefi preifat nad oedd yn cyflawni eu disgwyliadau. Teimlai fod risgiau i fod yn awdurdod comisiynu'n unig.

Ailadroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau fod yr Awdurdod yn dilyn Egwyddorion Cyfreithiol Gunning 1985 o ran ymgynghori ac felly roedd yn dal yng nghamau cychwynnol yr ymgynghoriad. O ganlyniad nid oedd mewn sefyllfa i ofyn i ddarpar bartneriaid drafod unrhyw delerau neu amodau, nes bod y Cabinet yn rhoi sêl bendith i symud ymlaen i'r cam hwnnw. Chwalodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau dybiaethau fod penderfyniadau wedi eu gwneud i gau neu 'gael gwared ar' unrhyw gyfleusterau, ac o safbwynt ansawdd gofal a diogelwch preswylwyr, rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor ei bod hi, yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn bersonol gyfrifol am ofal a thriniaeth unigolion mewn cyfleusterau gofal, boed y rheini'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol neu'n cael eu comisiynu ganddo.

Cyfeiriodd y Cynghorydd A Jones at yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gylchredwyd yn flaenorol a phwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i oedolion. Lleisiodd bryder a fyddai darparwyr annibynnol yn parhau i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg i'r rhai a ddewisai hynny a gofynnodd am gynnwys amod i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ymysg yr argymhellion i'r Cabinet.

Ymhellach i'r wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol ymatebodd Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol fel a ganlyn i gwestiynau'r Pwyllgor:

- er y byddai'r cynigion yn sicrhau arbedion ariannol i'r Cyngor, nid hwn oedd y ffactor pennaf dros newid. Y ffactorau oedd deddfwriaeth newydd a gofynion a disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth;
- cadarnhaodd mai dim ond un ganolfan gofal preswyl yr oedd Conwy bellach yn berchen arni ac yn ei rheoli, cyfleuster EMH, ac roedd Cyngor Wrecsam yn y broses o gau ei gartref gofal olaf;
- cadarnhaodd fod meini prawf asesu anghenion ar gyfer gofal cymdeithasol awdurdod lleol yn newid yn rheolaidd, yn seiliedig ar ganllawiau LIC, a hynny'n deillio o'r newid yn nisgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth;
- roedd y boblogaeth yn gyffredinol bellach yn byw'n hirach oherwydd datblygiadau mewn gwyddorau meddygol. Fodd bynnag, roedd hyn o bosibl yn cynnwys anghenion gofal mwy cymhleth yr oedd angen eu bodloni. Roedd LIC hefyd wedi capio taliadau gofal yn y cartref i £60 yr wythnos;
- Nid oedd Sir Ddinbych wedi rhagweld canlyniad yr ymarferiad. Roedd astudiaethau dichonoldeb wedi eu cynnal ar yr opsiynau a argymhellwyd. Hyd nes bod y Cabinet wedi cymeradwyo cynigion ar gyfer archwilio'r opsiynau a ffefrid ymhellach ni allai swyddogion na'r Grŵp Tasg a Gorffen ofyn i ddarparu bartneriaid edrych yn fanwl ar unrhyw fodelau gwasanaeth posibl;
- Ni fyddai ystyried safle arall ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol yn Rhuthun gan gadw safle Awelon yn weithredol fel y mae ar hyn o bryd yn mynd i'r afael â'r ffaith bod llai o alw am ofal preswyl, nac yn sicrhau arbedion;
- Nid oedd parhau i redeg cartref gofal yn Awelon gyda chyfradd defnyddio o 10 yn hyfyw;
- Ymysg rhesymau eraill argymhellwyd yr opsiynau a ffefrid er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy am gost is, ac ar yr un pryd gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i hybu annibyniaeth am gyhyd â phosibl, yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
- Nid oedd cost rhedeg cartrefi gofal preswyl awdurdod lleol yr un fath waeth faint oedd nifer y preswylwyr. Ni fyddai cynnydd yn nifer y preswylwyr o anghenraid yn lleihau costau oherwydd byddai angen cynyddu nifer y staff.
- Roedd dros 90% o ofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan ddarparwyr o'r sector annibynnol. Roedd y cartrefi annibynnol hynny yn arfer cael (a byddai'r un drefn yn parhau) eu monitro gan yr Awdurdod a'u harchwilio'n rheolaidd gan AGGCC. Roedd a byddai adroddiad monitro chwarterol yn cael ei gyflwyno i Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio ac roedd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau'n ystyried yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych;



- Dim ond gofal preswyl a nyrsio a gâi ei gomisiynu gan BIPBC ac nid oedd yn darparu gofal oni bai bod angen meddygol dros wneud hynny;
- Pe byddai'r opsiynau a ffefrid yn cael eu cymeradwyo yn y pen draw, byddai staff cymwysedig yn Hafan Deg a Dolwen yn cael eu trosglwyddo i'r darparwr(wyr) 'newydd' o dan drefniadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) a byddai felly'n cadw amodau a thelerau eu cyflogaeth. Byddent hefyd yn darparu gwasanaethau tebyg i'r hyn a wneir ar hyn o bryd;
- Roedd dyletswydd ar bob darparwr gofal i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg pan oedd angen hynny, yn unol â Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol LIC. Roedd iaith yn cael ei chydabod yn ffactor bwysig wrth ddarparu gofal EMH, a'i ddarpariaeth yn cael ei monitro gan Gyngor Sir Ddinbych ac AGGCC. Roedd sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg a chefnogi diwylliant ac ethos Cymreig yn rhan annatod o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);
- Pe byddai'r sefydliadau'n cael eu trosglwyddo i bartneriaid allanol byddent wedi ymrwmo drwy gytundeb i'w defnyddio i'r pwrpas y cytunwyd arno. Byddai cyfamodau'n cael eu hysgrifennu'n rhan o unrhyw gytundebau trosglwyddo yn nodi hyn yn ogystal â chymalau diogelu pe byddai'r sefydliad partner yn rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth penodedig yna byddai perchnogaeth yr asedau'n trosglwyddo'n ôl i'r Cyngor;
- Tra nad oedd gan yr Awdurdod yr adnoddau i ddatblygu cyfleusterau gofal preswyl EMH, gallai busnesau preifat/trydydd sector gael mynediad at gyllid i ddatblygu'r gwasanaethau angenrheidiol;
- Roedd ffigyrau ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal drwy Ogledd Cymru'n isel o'i gymharu â'r cyfartaledd drwy Gymru, a'r rheswm fel arfer oedd nad oedd sefydliad gofal o ddewis y defnyddiwr gwasanaeth/teulu ar gael pan oedd yr unigolyn yn barod i gael ei ryddhau, angen am fath penodol o ofal nyrsio/leched Meddwl yr Henoed neu ofal yn y cartref 'gyda dau ofalwr'.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Grŵp Tasg a Gorffen am y gwaith a wnaed ganddo yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio. Dywedodd eu bod wedi cyflawni eu briff wrth adolygu darpariaeth gofal oedolion mewnol a'u bod wedi cynnig argymhellion clir. Byddai'n ddiddorol gweld p'un ai y gellid datrys y pryderon a godwyd cyn cyflwyno'r argymhellion i'r Cabinet. Atgoffodd y Pwyllgor mai cam nesaf y Cabinet oedd, nid rhoi sêl bendith i ddod o hyd i ddarparwyr eraill ond yn hytrach rhoi sêl bendith i ystyried y cynigion ymhellach, cyn y gellid cyflwyno opsiynau manwl ac achosion busnes amlinellol i'w harchwilio'n fanwl. Atgoffwyd aelodau bod angen gwneud newidiadau i wasanaethau er mwyn bodloni'r newid o ran gofynion a disgwyliadau, nid o anghenraid i arbed arian.

Hefyd atgoffodd y Pwyllgor fod mwyafrif y gofal a gâi ei ddarparu'n barod yn Sir Ddinbych eisoes yn cael ei ddarparu gan y sector annibynnol a bod ansawdd y gofal hwnnw'n cael ei fonitro'n drylwyr a'i reoleiddio'n fanwl.

Trafododd y Pwyllgor eiriad yr argymhellion a nodwyd yn adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen ac yn dilyn trafodaethau manwl pellach penderfynodd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad fel a ganlyn

**Penderfynwyd: - argymell i'r Cabinet ei fod yn cymeradwyo'r opsiynau canlynol o safbwynt y pedwar sefydliad:**

- (i) Hafan Deg (Rhyl) - bod y Cyngor yn ystyried partneriaeth bosibl gyda sefydliad allanol gyda golwg ar drosglwyddo'r adeilad iddynt, comisiynu gwasanaeth gofal dydd o fewn yr adeilad a hefyd, galluogi i asiantaethau trydydd sector ddarparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl hŷn er mwyn lleihau unigedd cymdeithasol, cefnogi annibyniaeth a hybu gwytnwch. Dylai'r gwaith o ran yr opsiwn hwn gynnwys dadansoddiad o gost gymharol, ansawdd y gofal a'r iaith Gymraeg rhwng y gwasanaeth presennol ac unrhyw wasanaeth posibl yn y dyfodol;**
- (ii) Dolwen (Dinbych) - bod y Cyngor yn ystyried partneriaeth bosibl gyda sefydliad allanol gyda golwg ar y posibilrwydd o drosglwyddo'r adeilad neu'r gwasanaeth cyfan iddynt, gan sicrhau bod Dolwen yn cael ei gofrestru i ddarparu gofal dydd a phreswyl EMH. Dylai'r gwaith ar yr opsiwn hwn gynnwys dadansoddiad o gost gymharol, ansawdd y gofal a'r iaith Gymraeg rhwng y gwasanaeth presennol ac unrhyw wasanaeth posibl yn y dyfodol;**
- (iii) Awelon (Rhuthun) - bod y Cyngor yn ystyried yn fanwl y tri opsiwn a gynigiwyd mewn perthynas â'r sefydliad hwn a bod gwaith ar yr opsiynau hyn yn cynnwys dadansoddiad o gost gymharol, ansawdd y gofal a'r iaith Gymraeg rhwng y gwasanaeth presennol a bob un o'r tri opsiwn;**
- (iv) Cysgod y Gaer (Corwen) – bod y Cyngor yn ystyried creu partneriaeth gyda budd-ddeiliaid perthnasol (yn cynnwys PBC) a'r trydydd sector) i ddatblygu'r safle yn "ganolfan gefnogaeth" gan gynnwys cyfleusterau gofal preswyl a gofal ychwanegol ynghyd â gofal yn y cartref allanol a gwasanaeth cefnogaeth i denantiaid Cynlluniau Tai Gwarchod lleol a phoblogaeth ehangach Corwen a'r ardal gyfagos; ac**
- (v) Ar ôl cwblhau'r uchod cyflwyno dadansoddiad o bob un o'r opsiynau mewn perthynas â phob sefydliad i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ei archwilio.**

## **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 28 Ebrill 2016 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor (Cadeirydd), Dewi Owens, Arwel Roberts, Gareth Sandilands a/ac Joe Welch.

Mynychodd y Cyngorydd H.H. Evans ar wahoddiad y Pwyllgor.

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth y Cyhoedd (RM), Cydlynnydd Archwilio (RE), Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (CO), Cynrychiolwyr BT Mr Martin Jones (BT/NGA Rheolwr Rhaglen Cymru) a Mr Geraint Strello (Rheolwr Rhanbarthol Cymru - BT) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Raymond Bartley, Meirick Davies a/ac Colin Hughes.

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ddydd Iau 17 Mawrth 2016.

Materion yn codi:-

4. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf, (6) Cludiant Ysgolion Cynradd -Mynegodd y Cyngorydd A .Roberts ei fod yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed gan y Swyddogion o'r Adran Addysg mewn perthynas â threfniadau cludiant ysgol ar gyfer plant o Rhuddlan sy'n mynychu Ysgol Dewi Sant, y Rhyl. Roedd o'r farn fod staff yr Adran wedi gwneud pob ymdrech posibl i ganfod datrysiad i'r broblem.

***PENDERFYNWYD*** – y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.

#### **5 CYFLWYNO CYFLYMU CYMRU YN SIR DDINBYCH**

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr BT (BTRs) Mr Martin Jones, BT/NGA Rheolwr Rhaglen Cymru, a Mr Geraint Strello, Rheolwr Rhanbarthol Cymru, i'r cyfarfod.

Mynegodd y Cadeirydd bryder er y rhoddwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru i fynychu'r cyfarfod a chyfrannu at y drafodaeth, roeddent wedi gwrthod y gwahoddiad.

Rhoddodd Reolwr Rhaglen Cyflymu Cymru BT gyflwyniad ynglŷn â'r cefndir a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn gyda rhaglen Cyflymu Cymru. Fe:-

- eglurodd fod Rhaglen Cyflymu Cymru yn ychwanegol at gyflwyno ffibr optig masnachol BT ac yn ffurfio rhan o fuddsoddiad £2.5biliwn mewn band eang ffibr
- Roedd blaenoriaethau cyflwyno Cyflymu Cymru wedi'u diffinio gan Lywodraeth Cymru (LIC);
- pwysleisiodd mai nod y rhaglen oedd cyflwyno rhwydwaith band eang cost effeithiol fyddai o fudd i gymaint o bobl yng Nghymru â phosib, yn enwedig y rhai na fyddai'n elwa o raglen ffibr optig masnachol;
- Nododd ei fod yn brosiect peirianeg mawr ac ar y sail hon roedd ardal ymyrryd wedi'i nodi ar draws Cymru, yn bennaf ardaloedd gwledig, y gallai 750,000 o eiddo elwa o fand eang ffibr optig cyflym iawn. Hyd yn hyn roedd 600,000 wedi'u galluogi, gyda 150,000 pellach i'w galluogi;
- Er bod y rhaglen gyflwyno wedi'i dylunio i fod o fudd i'r economi h.y. drwy gyflwyno Parthau Menter a Pharthau Twf Lleol, roedd hefyd wedi'i dylunio i wella cysylltedd cymdeithasol/cymunedol a lliniaru eithrio digidol lle bo modd. O ganlyniad roedd y rhaglen yn cael ei chyflwyno i ardaloedd gwledig a threfol ar yr un pryd er mwyn i gwsmeriaid busnes a defnyddwyr allu elwa;
- darparodd fanylion gwaith cyflwyno 'cysylltiad ffibr i'r cabinet' a 'chysylltiad ffibr i'r eiddo', nifer y strwythurau yr oedd yn rhaid eu hadeiladu i ddarparu'r gwasanaethau a nifer yr eiddo fyddai'n elwa o'r cynlluniau;
- nododd hyd yn hyn fod 111 o'r 177 o strwythurau a gynlluniwyd wedi'u hadeiladu, gan gefnogi 22,060 o'r 29,720 eiddo a nodwyd i elwa o'r rhaglen. Roedd hyn yn cyfateb i gwblhau 74% o'r rhaglen;
- cynghorodd fod 66 strwythur i'w cwblhau, gan gefnogi 7,660 eiddo – rhannwyd y ffigurau hyn fel a ganlyn, Cysylltiad Ffibr i'r Cabinet : 19 strwythur yn cefnogi 1068 eiddo a Chysylltiad Ffibr i'r Eiddo: 47 strwythur yn cefnogi 6592 eiddo. Byddai'r strwythurau sy'n weddill yn cael eu darparu erbyn diwedd mis Mawrth 2018, gyda Chysylltiad Ffibr i'r Eiddo yn ffurfio rhan fwyaf gweddill y gwaith sydd i'w gyflawni;
- nododd y gallai 77% o Sir Ddinbych gael mynediad i Fand Eang Ffibr Optig Cyflym iawn os dymument yn awr, roedd hygyrchedd ar draws Cymru ar hyn o bryd o ddeutu 85.6%. Fodd bynnag, y nod cyffredinol oedd bod oddeutu 95% o Sir Ddinbych yn gallu cael mynediad erbyn diwedd y rhaglen gyflwyno;
- cynghorodd er bod y 'cabinetau gwyrdd' wedi'u gosod yn y rhan fwyaf o ardaloedd erbyn hyn, nid oeddent oll yn weithredol ar hyn o bryd. Roedd materion gyda chytundebau fforddfraint oedd yn oedi'r dyddiadau gweithredu mewn ardaloedd penodol;

- pwysleisiodd bod BT yn gosod isadeiledd i gyflwyno Bang Eang Ffibr Optig Cyflym iawn i gymunedau, fodd bynnag byddai'n rhaid i ddeiliaid tai neu fusnesau unigol gyflwyno cais am wasanaeth band eang cyflym iawn i'w heiddo, nid oedd unrhyw eiddo'n cael ei gysylltu'n awtomatig i'r rhwydwaith;
- cynghorodd fod y gwaith ar y gweill mewn perthynas ag opsiynau cynllunio ar gyfer darpariaeth arfaethedig band eang ffibr optig i'r ardaloedd na allai'r Cysylltiad Ffibr i'r Eiddo eu cyrraedd ar hyn o bryd;
- Nododd fod gan BT bolisi 'peidio dweud na' a byddai'n ceisio gweithio gyda busnesau, cymunedau ac unigolion i geisio diwallu eu hanghenion. Darparwyd manylion ynglŷn â nifer y rhaglenni neu fentrau y gallai preswylwyr, na allent gael mynediad i fand eang ffibr optig gan unrhyw un o'r prif ddarparwyr ar hyn o bryd, elwa ohonynt.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor a'r uwch swyddogion, cynghorodd gynrychiolwyr BT:-

- fod gwybodaeth ar argaeledd y gwasanaeth Cyflymu Cymru mewn ardal yn cael ei gyfathrebu drwy sticeri ar gabinetau 'gwyrdd', hysbysebion mewn papurau newydd lleol a rhanbarthol ac ar fysiau ac ati. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwrdd i hysbysebu a hyrwyddo argaeledd y gwasanaeth. Os yw unigolion wedi cofrestru gyda gwefan Cyflymu Cymru byddent yn derbyn e-byst a newyddlenni rheolaidd yn eu cynghori ynglŷn â chynnydd cyflwyno'r gwasanaeth;
- y byddai LIC yn derbyn cyfrifoldeb am gyfathrebu Rhaglen Cyflymu Cymru o fis Mehefin 2016, ac roedd trefniadau ar waith i drosglwyddo hyn o BT i LIC. Roedd gan BT adnoddau cyfyngol iawn i gefnogi elfen gyfathrebu'r rhaglen gyflwyno. Er hynny roedd cynrychiolwyr BT wedi mynychu digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol mewn ymgais i hyrwyddo cyflwyno'r rhaglen. Er mai tîm bach ydynt byddent yn ceisio gweithio gyda'r Cynghorwyr yn eu cymunedau i hyrwyddo argaeledd Cyflymu Cymru;
- mai strategaeth BT oedd galluogi cynifer o eiddo â phosib i ddefnyddio band eang ffibr optig cyflym iawn os dymunent;
- y gallai cwsmeriaid sy'n gallu cael mynediad i Gysylltiad Ffibr i'r Cabinet wneud cais am Gysylltiad Ffibr i'r Eiddo, fodd bynnag ni ellir ei ddarparu fel rhan o'r rhaglen gyflwyno bresennol, gan mai nod y rhaglen oedd darparu gwasanaeth ffibr optig cyflym iawn yn y modd mwyaf cost effeithiol. Roedd Cysylltiad Ffibr i'r Eiddo yn llawer drytach i'w ddarparu. Mewn achosion o'r fath byddai BT yn derbyn y costau ar gyfer y 1,000m cyntaf ac yna byddai'n rhaid i'r cwsmer dalu gweddill y gost;
- Pan fydd ffibr optig yn cael ei ddarparu drwy Gysylltiad Ffibr i'r Cabinet, roedd yn gysylltiad ffibr optig i'r 'cabinet gwyrdd' ac yna byddai'n cael ei ddarparu drwy wifren gopr i'r eiddo. Roedd hyn yn gweithio'n dda am bellter hyd at 3km. Yr agosaf y mae'r eiddo i'r 'cabinet gwyrdd' y gorau, gan fod cyflymder yn cael ei golli pan fydd yn rhaid i'r wybodaeth deithio ymhellach ar hyd y wifren gopr;
- y gallai gwifrau copr gael eu tynnu'n ôl yn hirdymor ond ni fyddai hyn yn digwydd yn y dyfodol agos. Roedd cynlluniau peilot ar gyfer mathau eraill o ddarpariaethau cyflymder ffibr yn cael eu profi mewn ardaloedd penodol o'r wlad ar hyn o bryd, roedd y rhain yn cynnwys cynllun peilot G.fast yn Abertawe, oedd yn ystyried darparu cyflymder ffibr drwy'r gwifrau copr, roedd cynllun peilot arall yn treialu system Vectra. Fodd bynnag, roedd technoleg yn datblygu'n gyflym iawn ac roedd technolegau eraill ar gael yn rheolaidd;

- bod tair cyfnewidfa ffôn yn Sir Ddinbych heb eu huwchraddio i ddarparu band eang ffibr optig cyflym iawn, yn Llanarmon-yn-lâl, Llandegla a Nantglyn, y byddent yn cael eu galluogi ym mis Mehefin 2016. Roedd y gwaith ar y trywydd cywir i gael ei ddarparu. Byddai gwybodaeth ar gael ar y wefan hefyd yn agosach at yr amser;
- y gallai BT nodi pa eiddo na fyddai'n gallu elwa o naill ai'r gwasanaeth Cysylltiad Ffibr i'r Cabinet neu'r gwasanaeth Cysylltiad Ffibr i'r Eiddo, ynghyd â pharai a nodir fel ardaloedd manau gwan;
- y byddai'r ffigur o 95% ar gyfer eiddo a allai, os ceisir amdano, dderbyn mynediad i fand eang ffibr optig cyflym iawn wedi'i leoli o fewn 3km o'r 'cabinet gwyrdd' agosaf. Efallai y bydd eraill sydd ymhellach na 3km yn derbyn rhywfaint o fudd ar ôl cwblhau cyflwyno'r rhaglen, fodd bynnag efallai bydd oddeutu 5% o eiddo ar draws y sir yn methu â derbyn unrhyw fuddion o'r rhaglen;
- mewn ymateb i bryderon ynglŷn â graddau ei gyflwyno yn ardal Rhuddlan a Bodelwyddan, byddant yn gwirio'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn adrodd yn ôl i'r Aelodau drwy'r swyddogion;
- na roddir blaenoriaeth i fusnesau dros eiddo preswyl o dan Raglen Cyflymu Cymru, ar wahân i'r busnesau sydd wedi'u lleoli mewn parthau menter neu dwf ac nid oedd rhai yn Sir Ddinbych;
- eu bod yn ymwybodol bod y diwydiant amaethyddol, conglfaen cymunedau gwledig, yn awr yn dibynnu ar isadeiledd a chysylltedd TG da a dibynadwy, felly roedd y rhaglen yn cael ei chyflwyno i gymunedau trefol a gwledig ar yr un pryd;
- y byddai BT yn darparu isadeiledd band eang ffibr optig i ddatblygiadau tai newydd o dros 200 eiddo heb unrhyw gost ychwanegol i'r datblygwr, a byddai'n fodlon gweithio gyda datblygwyr datblygiadau llai i'w gosod ar y datblygiadau hyn am gostau a rennir. Fodd bynnag, roedd yn bwysig fod datblygwyr pob safle posibl yn rhoi digon o rybudd i BT o'u cynlluniau i ddatblygu safleoedd;
- y byddent yn barod i weithio gyda'r Cyngor, ar ôl darpariaeth y rhaglen benodol yn 2017, i archwilio meysydd i'w gwella gyda'r nod o gefnogi'r economi leol a'i ddatblygu ymhellach yn y dyfodol;
- bod LIC wedi gosod targed o gyflawni 96% o ddarpariaeth band eang ffibr optig cyflym iawn ar draws Cymru, ar gyfer eiddo masnachol a phreswyl – roedd y targed hwn yn cynnwys ffibr optig wedi'i ddarparu gan yr holl ddarparwyr e.e. Virgin ac ati. Roedd wedi rhoi'r dasg i BT i ddarparu band eang ffibr optig cyflym iawn i 95% o'r 'ardal ymyrryd' – yr ardal a ddynodwyd yn 2011 nad oedd ddarparwyr masnachol yn debygol o fuddsoddi ynddynt erbyn 2017;
- bod LIC wedi cydnabod na fyddai 4% o Gymru yn gallu cael mynediad i fand eang ffibr optig erbyn 2017 ac y byddai 5% o'r 'ardal ymyrryd' hefyd yn methu â chael mynediad i'r gwasanaeth. Ar ddiwedd cyfnod y contract byddai adolygiad marchnad agored yn cael ei gynnal;
- y gallai preswylwyr a busnesau wirio a oedd y gwasanaeth ffibr optig ar gael yn eu hardal drwy ddefnyddio'r teclyn 'Gwirio Band Eang' ar wefan Cyflymu Cymru BT. Gellir defnyddio'r gwiriwr fel canllaw ar gyfer cyflymder 'lawrlwytho' ac 'uwchlwytho' pe bai'r unigolyn neu'r busnes yn dewis darpariaeth ffibr optig.
- eu bod yn cydnabod fod lwfans gwallau yn gysylltiedig â defnyddio cyfleuster chwilio am god post gan na fyddai pob eiddo o fewn ardal cod post yn gallu elwa o'r gwasanaeth ffibr optig;

- y dylid trin ffigur Cymru gyfan o ran nifer yr eiddo sy'n gymwys ar gyfer ffibr optig gyda gofal, gan y gallant nodi fod gan Sir Ddinbych rif is (gwirioneddol a chanran) o eiddo cymwys na nifer o awdurdodau lleol eraill. Y rheswm dros hyn yw y gallai ffigurau siroedd eraill gynnwys cyflwyniadau masnachol mawr yn y sir honno, rhywbeth nad oedd gan Sir Ddinbych. Yr unig ardaloedd yn Sir Ddinbych i elwa o wasanaeth ffibr optig masnachol oedd y Rhyl a Phrestatyn, roedd rhwydwaith ffibr optig cyflym yn gwasanaethu Parc Busnes Llanelwy hefyd. Roedd Sir Ddinbych yn debygol o gael mwy o Gysylltiadau Ffibr i'r Eiddo na'r siroedd eraill, ar ôl cwblhau cyflwyniadau unigol byddai cyfanswm yr eiddo cymwys yn Sir Ddinbych yn cynyddu;
- er bod map lleoliad ar gyfer 'cabinetau gwyrdd' ar gael ni ellir rhannu hyn gyda sefydliadau allanol nac unigolion gan ei fod yn cyfrif fel gwybodaeth o fath 'diogelwch gwladol'.
- bod y gyfradd sy'n manteisio ar fand eang ffibr optig cyflym iawn yn ardaloedd o Sir Ddinbych lle bo'r 'cabinetau gwyrdd' yn weithredol oddeutu 25%. Rhagwelwyd y byddai hyn yn cynyddu i oddeutu 40% erbyn canol 2017. Roedd y cyfraddau yn yr ardaloedd gwledig yn llawer uwch na'r ardaloedd trefol ar hyn o bryd;
- roedd y rhesymau pam nad oedd pobl yn manteisio ar fand eang ffibr optig cyflym iawn yn amrywio h.y. rhai yn credu eich bod yn cael eich cysylltu'n awtomatig, diffyg sgiliau TG, costau'n atal rhai tra bo eraill eisoes yn fodlon â chyflymder eu gwasanaeth presennol ac ati;
- mewn perthynas â datblygiad Cynllun Datblygu Lleol Bodelwyddan byddai disgwyl i'r datblygwr gysylltu â darparwr cyfathrebu ynglŷn â gosod darpariaeth ffibr optig cyflym iawn. Ni fyddai'n briodol i BT gysylltu â'r datblygwr oherwydd efallai y byddant eisieu dewis darparwyr amgen;
- Ers dechrau Rhaglen Cyflymu Cymru roedd 50,000 eiddo ychwanegol wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith, a dyna pam yr estynnwyd y rhaglen i 2017;
| Sports Injury                       | 36                    |              |                       | 11     |                         |                              | 47          |
| Transport/Vehicle                   | 6                     | 14           | 15                    |        |                         | 1                            | 36          |
| Chemical/Substance                  | 8                     |              |                       | 8      |                         |                              | 16          |
| Trap, Pinch or Entanglement         | 9                     | 1            |                       | 5      |                         | 1                            | 16          |
| Faint/Seizure                       | 15                    | 1            |                       | 2      |                         | 1                            | 19          |
| Verbal Assault                      | 4                     | 2            |                       |        |                         | 4                            | 10          |
| Minor Medical                       | 16                    |              |                       | 5      |                         |                              | 21          |
| Playground Incident                 | 4                     |              |                       | 34     |                         |                              | 38          |
| Strike Against                      | 16                    | 1            |                       | 12     |                         | 2                            | 31          |
| Thrown/Ejected Object               | 3                     | 1            |                       | 3      |                         |                              | 7           |
| Property Damage                     | 4                     | 2            |                       |        |                         |                              | 6           |
| Work Equipment/Machine              | 7                     |              |                       | 3      |                         | 1                            | 11          |
| Witness                             |                       | 1            |                       |        |                         |                              | 1           |
| Psychological                       | 2                     |              |                       |        |                         | 1                            | 3           |
| Environment - Dust/Fumes/Heat/Noise | 9                     |              |                       | 1      |                         |                              | 10          |
| Missing Client/Service User         | 4                     | 1            |                       |        |                         |                              | 5           |
| Hot Material                        | 4                     |              |                       | 2      |                         |                              | 6           |
| Loss / Theft of Property            | 4                     |              |                       |        |                         |                              | 4           |
| Physical Assault                    | 3                     | 1            |                       | 12     |                         |                              | 16          |
| Sharp/Abrasive Material             | 4                     |              |                       | 4      |                         |                              | 8           |
| Vandalism                           |                       | 1            |                       |        |                         |                              | 1           |
| Hand Tools                          | 2                     | 1            |                       | 2      |                         | 1                            | 6           |
| Lifting equipment                   | 1                     |              |                       |        |                         |                              | 1           |
| Sharp / Abrasive Material           | 1                     |              |                       |        |                         |                              | 1           |
| Fire/Explosion                      |                       |              |                       | 2      |                         |                              | 2           |
| Not Specified                       | 6                     | 3            |                       | 5      |                         |                              | 14          |
| Grand Total                         | 522                   | 24           | 16                    | 280    | 3                       | 30                           | 915         |

## RIDDOR Reportable Events by Service

| RIDDOR Reportable Events | Adult & Business Services | School   | Housing & Community Development | Community Support Services | Grand Total |
|--------------------------|---------------------------|----------|---------------------------------|----------------------------|-------------|
| Major Accident/Fatality  |                           | 1        |                                 | 4                          | 5           |
| Over 7 Day Incident      | 1                         | 5        | 1                               |                            | 7           |
| <b>Grand Total</b>       | <b>1</b>                  | <b>6</b> | <b>1</b>                        | <b>4</b>                   | <b>12</b>   |



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## **Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol 2016**

### **1. Datganiad Polisi**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol o ran Iechyd, Diogelwch a Lles, felly bydd yn sicrhau, i'r graddau y bydd yn rhesymol yn ymarferol, Iechyd, diogelwch a Lles ei gyflogeion tra byddant yn y gwaith. Bydd hefyd yn sicrhau, i'r graddau y bydd yn rhesymol yn ymarferol, Iechyd, diogelwch a Lles eraill, y gallai eu gweithredoedd a'u gweithgareddau effeithio arnynt.

Fel cyflogwr cyfrifol, ceisiwn gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, ei is-reoliadau a chodau ymarfer cymeradwy. Ceisiwn hefyd gyflawni ein dyletswydd gofal sifil.

Byddwn yn:-

- Asesu'r risgiau sy'n deillio o'n gweithgareddau a'u rheoli'n ddigonol
- Cyflwyno systemau gwaith diogel a phriodol
- Ymgynghori gyda'n gyflogeion ar faterion sy'n effeithio ar eu Hiechyd, eu Diogelwch a'u Lles
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth i gyflogeion
- Darparu a chynnal cyfarpar ac offer diogel
- Cynnal amodau gwaith diogel ac iach
- Ymdrechu i atal damweiniau ac achosion o salwch sy'n gysylltiedig â gwaith
- Sicrhau bod sylweddau peryglus yn cael eu trin, eu defnyddio a'u storio yn ddiogel
- Sicrhau bod pob cyflogai yn gymwys ac yn gallu cyflawni eu gwaith
- Cofnodi damweiniau a digwyddiadau a'u hadrodd i'r awdurdod gorfodi pan fydd yn ofynnol mewn deddfwriaeth
- Monitro ac adolygu unrhyw systemau y byddwn yn eu cyflwyno at ddibenion rheoli Iechyd, Diogelwch a Lles.
- Sicrhau canlyniadau am ddiffyg cydymffurfiaeth â'n safonau cytûn.

Er mwyn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus, byddwn yn darparu arweinyddiaeth ac ymrwymiad cadarn o lefel uchaf y sefydliad a thrwy'r gadwyn reoli. Rydym yn disgwyl yr un lefel o ymrwymiad gan bob un o'n gyflogeion, waeth beth yw eu swydd.

Byddwn yn hysbysu pob cyflogai o'r safonau disgwyliedig ac yn cyflwyno system rheoli diogelwch i'w cefnogi.

Byddwn yn ymdrechu'n barhaus i wella ein diwylliant diogelwch.


Bydd y polisi yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

**Mohammed Mehmet**


Ebrill 2016

## 2. Y Sefydliad

Diagram o'r Sefydliad o ran Iechyd, Diogelwch a Lles



### Allwedd



## **Rolau a Chyfrifoldebau**

Mae gan y rolau canlynol ddyletswyddau a chyfrifoldebau penodol o ran lechyd, Diogelwch a Lles (IDaLI) yng Nghyngor Sir Dinbych (CSDd).

### **2.1 Prif Swyddog Gweithredol**

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol, fel yr Uwch Swyddog, yn cael ei gydnabod fel y meddwl sy'n rheoli'r sefydliad, gyda chyfrifoldeb cyffredinol am IDaLI yn y sefydliad. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn:-

- Ceisio sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a'i ddyletswydd gofal sifil.
- Darparu arweinyddiaeth ac ymrwymiad cadarn i ysgogi gwelliannau parhaus yn niwydiant diogelwch y sefydliad.
- Creu sefydliad ar gyfer dirprwyo gweithgareddau rheoli diogelwch.
- Sicrhau bod systemau cynllunio a rheoli IDaLI priodol ar waith er mwyn sicrhau bod ymagwedd systematig a chyson ar gyfer rheoli IDaLI yn cael ei mabwysiadu ar draws y sefydliad cyfan.
- Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu o ran IDaLI.
- Sicrhau bod prosesau cyfathrebu priodol ar waith o ran IDaLI rhwng y cyflogwr a'r cyflogeion a'u bod yn effeithiol.

### **2.2 Cyfarwyddwyr Corfforaethol**

Mae'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn atebol i'r Prif Swyddog Gweithredol. Byddant yn:-

- Darparu arweinyddiaeth ac ymrwymiad cadarn i ysgogi gwelliannau parhaus i ddiwylliant diogelwch y sefydliad.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu a chynnal trefniadau rheoli diogelwch y sefydliad.
- Sicrhau bod cyfrifoldebau IDaLI yn cael eu cyfleu'n glir a bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu er mwyn cynnal trefniadau IDaLI cadarn ac effeithlon.

Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, a nodwyd yn arweinydd IDaLI, yn cefnogi ei is-swyddogion sydd â rolau IDaLI penodol a darparu ffocws ar lefel uwch ar gyfer materion IDaLI.

### **2.3 Penaethiaid Gwasanaeth**

Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn atebol i'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol. Byddant yn:-

- Darparu arweinyddiaeth ac ymrwymiad cadarn i ysgogi'r gwelliannau parhaus i ddiwylliant diogelwch y sefydliad.
- Sicrhau bod fframweithiau'r Gwasanaeth ar gyfer IDaLI a systemau gwaith diogel yn cael eu cyflwyno a'u rheoli'n gadarn.
- Sicrhau bod proses effeithiol o adrodd damweiniau a digwyddiadau yn cael ei chynnal a bod gweithdrefnau ar waith i roi gwybod am offer peryglus a diffygiol.

## **2.4 Rheolwyr a Goruchwylwyr**

Mae pob Rheolwr a Goruchwylwr yn atebol drwy eu rheolwr llinell i'w Pennaeth Gwasanaeth, am sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer IDaLI yn cael eu dehongli'n gywir a'u gweithredu'n gadarn. Byddant yn:-

- Darparu arweinyddiaeth ac ymrwymiad cadarn i IDaLI eu cyflogeion, drwy nodi'r peryglon yn eu gweithrediadau a'u gweithle. Asesu, gwerthuso a chofnodi'r risgiau a lliniaru'r risgiau hynny drwy weithdrefnau adrannol a dulliau diogel addas.
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth addas a digonol i gyflogeion o ran peryglon, risgiau a mesurau rheoli sy'n cael eu defnyddio yn y gweithle.
- Sicrhau bod pob damwain a digwyddiad yn cael eu cofnodi a'u hadrodd ar y ffurflen adrodd ar y fewnwyd.
- Ymchwilio i bob anaf a digwyddiad a sicrhau bod camau adferol yn cael eu gweithredu pan fydd angen.

## **2.5 Penaethiaid**

Mae ein hysgolion yn cael eu rheoli gan benaethiaid sy'n gweithio'n agos gyda llywodraethwyr yr ysgolion. Mae'r penaethiaid a'r llywodraethwyr yn gyfrifol am IDaLI yn eu hamgylcheddau gwaith. Mae penaethiaid a llywodraethwyr yn cael eu cefnogi gan Gyngor Sir Ddinbych ac yn derbyn cefnogaeth IDaLI gan y tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol.

## **2.6 Cyflogeion**

Mae cyflogeion yn atebol i'w Rheolwr Llinell a byddant yn cydymffurfio â'n systemau gwaith a'r cyfarwyddiadau a roddir er budd IDaLI. Mae ein cyflogeion wedi'u grymuso i weithredu er mwyn lleihau risgiau IDaLI. Disgwylir iddynt:

- Cymryd gofal rhesymol o'u hunain ac eraill y gallai eu gweithredoedd neu hepgoriadau effeithio arnynt.
- Adrodd pob anaf, digwyddiad a digwyddiad peryglus i'w rheolwr llinell.

## **2.7 Y Tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Bydd y Tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol yn darparu cyngor ac arweiniad i'r Prif Weithredwr, Cynghorwyr Sir, Rheolwyr a Chyflogeion fel y bo'n briodol. Byddant yn:-

- Darparu ffocws ar gyfer arweinyddiaeth, cyngor a chymorth IDaLI i holl gyflogeion Cyngor Sir Ddinbych.
- Datblygu ac adolygu canllawiau IDaLI priodol.
- Datblygu ac adolygu canllawiau IDaLI priodol.
- Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddiant IDaLI.
- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer adrodd ac ymchwilio i ddamweiniau/digwyddiadau yn cael eu cynnal yn unol â'r Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).
- Sicrhau bod ganddynt raglen monitro systemau ar waith.

## **2.8 Y Tîm Iechyd Galwedigaethol**

Bydd y tîm Iechyd Galwedigaethol yn darparu arweiniad a chymorth ar Iechyd a Lles Galwedigaethol. Byddant yn:

- Cynghori rheolwyr a chyflogeion ar faterion Iechyd sy'n gysylltiedig â'r gwaith a mynd i'r afael â phryderon Iechyd yn dilyn atgyfeiriad.
- Cydweithio gyda rheolwyr i gynghori ar addasiadau rhesymol ac ymarferol ar gyfer cyflogeion â chyflyrau meddygol.
- Cynnal proses gwylidwriaeth Iechyd pan fydd yn berthnasol, yn unol â gofynion asesu risgiau rheolaethol.
- Trefnu cymorth cwnsela a ffisiotherapi pan fydd yn briodol.
- Darparu gwybodaeth addysgol ar faterion Iechyd a diogelwch e.e. alcohol, smygu, diet ac yn y blaen.

## **2.9 Cynghorwyr Iechyd a Lles Lefel Gwasanaeth**

Mae'r Cynghorwyr Iechyd a Diogelwch Lefel Gwasanaeth yn darparu cyngor cymwys i reolwyr a chyflogeion yn eu meysydd cymhwyster a Gwasanaeth priodol. Byddant yn:-

- Darparu cyngor gweithredol IDaLI yn eu maes arbenigol hwy.
- Sicrhau bod systemau effeithiol ar gyfer IDaLI ar waith yn eu maes gwasanaeth hwy.

## **2.10 Cynrychiolwyr Diogelwch Undebau**

Mae Cynrychiolwyr Diogelwch yn cynrychioli'r cyflogeion yn eu gweithleoedd ar faterion IDaLI yn y gwaith. Byddant yn:-

- Cynorthwyo cyflogeion gyda materion IDaLI fel y bo'n briodol.
- Ymgynghori a chydweithio gyda rheolwyr a Chynghorwyr Iechyd a Diogelwch i hybu a datblygu mesurau i sicrhau IDaLI eu cydweithwyr.

### 3. Trefniadau

Mae adran trefniadau'r polisi yn disgrifio'r hyn rydym yn ei wneud i gyflawni ein hamcanion IDaLI. Mae gennym System Rheoli Diogelwch ar waith fel ffordd o reoli pob agwedd o ddiogelwch drwy'r sefydliad cyfan. Mae'r System Rheoli Diogelwch yn cynnig proses systematig, benodol a chynhwysfawr, sy'n cael ei hymgorffori ym mhob agwedd o'n sefydliad. Mae elfennau'r System Rheoli Diogelwch yn cynnwys:-

- Y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ei hun.
- Pobl uwch sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig am IDaLI (Aelod arweiniol etholedig y cyngor, Cyfarwyddwr enwebedig a Phennaeth Gwasanaeth)
- Y tîm proffesiynol cynghori ar IDaLI.
- Cynghorwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr diogelwch undebau.
- Proses adrodd ac ymchwilio ar-lein ar gyfer damweiniau / digwyddiadau.
- Cofrestr diogelu staff ar-lein.
- Cofrestr risg gorfforaethol.
- Dogfennau canllaw ar-lein yn cefnogi asesiadau risg a system datblygu gwaith ddiogel.
- Cynllun gweithredu a chynllun hyfforddi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.
- Rheoli proses comisiynau a monitro contractwyr.

#### 3.1 Polisi a Chynllunio

##### **Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Mae'r Polisi Corfforaethol wedi'i ysgrifennu mewn cysylltiad ag Iechyd, Diogelwch a Lles. Mae Polisi arall ar waith ar gyfer Rheoli Diogelwch Tân.

Mae'r polisi IDaLI Corfforaethol yn datgan bod CSDd yn ceisio cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a phob is-ddeddfwriaeth, felly mae datganiadau polisi pellach ar gyfer darnau unigol o ddeddfwriaeth yn ddiangen. Mae angen rhoi pwyslais yn hytrach ar ddarparu gwybodaeth ac arweiniad ar sut i sicrhau bod pobl yn ddiogel ac iach yn y gweithle, cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chyflawni ein dyletswydd gofal.

##### **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**

Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol mewn grym i nodi risgiau busnes a risgiau rheoleiddio a allai effeithio ar bob Gwasanaeth yn y sefydliad. Mae'r gofrestr hon yn cael ei choladu o'r holl risgiau busnes a chynlluniau busnes lefel Gwasanaeth a nodwyd ac mae'n cael ei chynnal gan y Tîm Gwelliannau Corfforaethol.

##### **Y Cynllun Rheoli Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Mae'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y cynllun Rheoli Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi'u halinio ag anghenion y sefydliad. Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chasglu gan y gwasanaethau ac mae'n defnyddio amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol (CAMPUS).

Mae'r cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gael ar system fewnrwyd CSDd.

### **Cynllunio a Gwytnwch Corfforaethol ar gyfer Argyfwng**

Mae cynlluniau ar gyfer argyfwng a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau sifil ar lefel gorfforaethol, ar gyfer digwyddiadau mawr, yn cael eu hwyluso gan yr Uned Cyd-Gynllunio ar gyfer Argyfwng yn Sir y Fflint.

### **Fframwaith Iechyd a Diogelwch Lefel Gwasanaeth**

Mae CSDd yn sefydliad amrywiol a chymhleth. Nid yw'n ymarferol i'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol nodi strwythurau a threfniadau rheoli lleol. Felly, i reoli iechyd a diogelwch yn effeithiol mewn Gwasanaethau unigol, bydd pob Gwasanaeth yn paratoi Fframwaith Iechyd a Diogelwch Lefel Gwasanaeth sy'n bodloni gofynion Gwasanaethau lleol.

Bydd y Fframwaith yn cynnwys datganiad Polisi'r Prif Weithredwr fel eitem gyffredin, ond byddai'n mynd ymlaen i ddisgrifio sefydliad y Gwasanaeth ac yn nodi'r Trefniadau Gwasanaeth ac Adrannol ar gyfer rheoli IDaLI megis nodi peryglon, asesu risgiau, systemau gwaith diogel, monitro a goruchwyliaeth.

### **Fframwaith Iechyd a Diogelwch Unigol**

Pan fydd cyfleuster yn gweithredu'n annibynnol o dan reolaeth leol (e.e. ysgol, ffatri neu gartref gofal) bydd Fframwaith Iechyd a Diogelwch Cyfleuster yn ateb ymarferol ar gyfer rheoli materion iechyd a diogelwch lleol. Eto, byddai datganiad Polisi'r Prif Weithredwr yn cael ei ddefnyddio fel nod cyffredin gyda threfniadaeth a threfniadau rheoli lleol yn cael eu rhestru mewn fformat lleol priodol.

### **Cofrestrau Risg i Iechyd a Diogelwch Gwasanaethau**

Defnyddiwyd proses o ddadansoddi peryglon a bylchau drwy'r sefydliad cyfan i nodi a chofnodi peryglon lleol a mesurau rheoli. Mae'r broses yn sefydlu lle mae angen rheolaethau rheoli pellach ac mae'n galluogi i gynlluniau gweithredu CAMPUS gael eu datblygu er mwyn llywio'r rhaglen gwelliannau parhaus.

Mae pob Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwr Adrannol Gweithredol yn gyfrifol am gynllunio'r gwaith a chwblhau'r cynlluniau gweithredu y maent yn gyfrifol amdanynt.

## **3.2 Trefniadau Sefydliadol**

### **Dogfennau Canllaw Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Mae dogfennau canllaw IDaLI corfforaethol yn cael eu paratoi gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol er mwyn pwysleisio prif ofynion deddfwriaethau iechyd a diogelwch. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar dudalen gwe iechyd a Diogelwch mewnwyd CSDd.

Mae dogfennau Canllaw Corfforaethol yn berthnasol i bob cyflogai.

## **Ffurflenni a thempledi lechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Mae dogfennau, ffurflenni, templedi ac enghreifftiau ar gyfer gweithgareddau IDaLI megis asesiadau risg ac adrodd ar ddamweiniau ar gael yn electronig ar y fewnwyd. Pan fydd angen, mae cymorth a chynghor personol ar gael.

## **Fflach Newyddion lechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Bwriedir i'r fflach newyddion fod yn gyfrwng o gyfleu gwybodaeth frys yn gyflym o amgylch y sefydliad. Bydd fflach newyddion yn cael ei baratoi a'i gyfleu i feysydd perthnasol o'r sefydliad drwy e-bost, system mewnrwyd CSDd a llwybrau rheoli lleol fel y bo'n briodol.

## **Dogfennau Ymgynghori lechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Bydd y Polisi lechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei adolygu a'i ddiwygio'n rheolaidd. Bydd y polisi diwygiedig ar gael i bob aelod o'r Pwyllgor lechyd a Diogelwch Corfforaethol, Aelodau'r Cyngor, Uwch Arweinwyr, Cynrychiolwyr Undebau a chyflogeion ar gyfer ymgynghoriad cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo'n ffurfiol a'i gyflwyno'n gyffredinol.

Bydd pob dogfen arall sy'n cael eu paratoi gan yr adran lechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gael i bwyllgorau perthnasol a phartïon â diddordeb ar gyfer ymgynghori arnynt cyn eu cyflwyno'n gyffredinol.

## **Dogfennau lechyd a Diogelwch Corfforaethol (Gweinyddwr a Mewnrwyd y Rhwydwaith)**

Bydd dogfennau lechyd a Diogelwch Corfforaethol sy'n rhan o'r system rheoli lechyd a diogelwch yn cael eu storio'n ganolog ar yriant adrannol cyffredinol. Bydd cynnwys a diwygiadau dogfennau yn cael eu rheoli'n briodol a'u cyflwyno mewn fformat electronig, darllen yn unig, er gwybodaeth ar dudalen lechyd a Diogelwch Corfforaethol system fewnrwyd CSDd. Bydd ffurflenni a thempledi ar gael mewn fformat electronig heb ei reoli, y gellir eu golygu, i'w lawrlwytho a'u defnyddio ar unwaith.

## **CIVICA**

Mae CIVICA yn System Adfer a Rheoli Dogfennau Electronig (EDRMS) a fydd yn cael ei defnyddio i lywio a chofnodi pob proses lechyd a diogelwch, yn cynnwys adrodd ar ddamweiniau/digwyddiadau ac olrhain prosesau wedi'u cwblhau a gweithredoedd a gofnodwyd.

## **System SHE**

Bydd y data sylfaenol ar ddamweiniau o'r hen system SHE, yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol er mwyn galluogi i adroddiadau ar ddamweiniau a chofnodion diogelwch hanesyddol gael eu cyrchu a'u hadolygu.

## **Byrddau Hysbysu a Phosteri lechyd a Diogelwch**

Bydd posterï cyfreithiau lechyd a diogelwch yn cael eu harddangos yn amlwg ym mhob cyfleuster yn Sir Ddinbych.

Mewn cyfleusterau lle nad oes gan gyflogeion fynediad rheolaidd i gyfrifiaduron a phan fydd yn ymarferol mewn cyfleusterau eraill, bydd hysbysfyrdau lechyd a diogelwch yn cael eu gosod er mwyn arddangos copiâu caled o wybodaeth lechyd a diogelwch.



## **Cymhwyster**

Bydd gofynion cymhwyster ar gyfer rolau swyddi unigol yn cael eu diffinio mewn swydd-ddisgrifiadau fel rhan o broses recriwtio'r adran Adnoddau Dynol.

Mae unigolyn cymwys yn cael ei ddisgrifio yn gyffredinol fel unigolyn sy'n meddu ar wybodaeth, hyfforddiant ac arbenigedd addas o bwnc ac sydd hefyd yn deall cyfyngiadau eu galluoedd eu hunain.

## **Y Matrics Hyfforddiant Corfforaethol**

Er mwyn sicrhau elfen hyfforddiant cymhwyster, datblygwyd matrics hyfforddiant sy'n rhestru rolau swyddi (o'r Prif Weithredwr i Wirfoddolwyr). Nodir yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer pob grŵp rôl yn y matrics.

Mae cyrsiau hyfforddiant sy'n ymwneud ag lechyd a Diogelwch yn cael eu darparu neu eu trefnu gan y Tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol. Mae Rheolwyr Llinell a chyflogeion yn cytuno ar anghenion hyfforddi fel rhan o'r system arfarnu perfformiad blynyddol, neu maent yn cael eu nodi drwy asesiad risg a'u harchebu drwy system Adnoddau Dynol Trent.

## **Rhaglen Cwrs Hyfforddiant Corfforaethol**

Mae rhaglen hyfforddiant iechyd a diogelwch flynyddol wedi'i datblygu i fodloni'r galw sy'n cael ei gynhyrchu gan y Matrics Hyfforddiant. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyrsiau mewnol ac allanol ac mae'n cael ei rheoli gan ddefnyddio system Adnoddau Dynol Trent. Mae cyrsiau hyfforddiant penodol a phwrpasol ychwanegol neu sgysiau yn cael eu datblygu a'u darparu, yn ôl y galw.

## **Cymhwyster Darparwyr Hyfforddiant**

Bydd cymhwyster darparwyr hyfforddiant allanol a hyfforddwyr unigol yn cael ei gadarnhau cyn unrhyw gyrsiau hyfforddi.

Bydd unrhyw hyfforddiant iechyd a diogelwch mewnol yn cael ei ddarparu gan Ymarferwyr lechyd a Diogelwch cymwys. Bydd cymhwyster yn cael ei gadarnhau drwy aelodaeth barhaus o'r Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Corfforaethol (IOSH), datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant priodol i Hyfforddwyr.

## **Cofnodion Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch**

Trent yw'r system Adnoddau Dynol Corfforaethol ar gyfer cofnodi gwybodaeth bersonél unigolion. Bydd cofnodion o ddigwyddiadau hyfforddiant iechyd a diogelwch sy'n cael eu mynychu gan gyflogeion yn cael eu cofnodi gan Reolwyr Llinell gan ddefnyddio system cronfa ddata Trent.

## **Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Bydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Uwch Reolwyr, Aelodaeth etholedig, Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a Chyflogeion, yn cwrdd ar sawl achlysur y flwyddyn i drafod perfformiad iechyd a diogelwch ar draws yr Awdurdod. Mae gan y pwyllgor gylch gorchwyl cytûn.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried materion corfforaethol, archwilio cofnodion pwyllgorau lechyd a Diogelwch Grŵp y Gwasanaeth, adolygu camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau. Bydd aelodau'r pwyllgor yn craffu ar gamau gweithredu i'w cyflawni ac adroddiadau statws gan reolwyr sy'n gyfrifol am y camau gweithredu hynny.

### **Pwyllgor lechyd a Diogelwch Grŵp y Gwasanaeth**

Mae'n ofynnol i bob Gwasanaeth unigol fonitro ac adolygu ei berfformiad IDaLI yn rheolaidd. Er cyfleustra, mae Gwasanaethau yn cael eu cyfuno yn Grwpiau Gwasanaeth gyda buddiannau a phroffiliau risg tebyg. Mae tri Grŵp Gwasanaeth ar hyn o bryd, pob un gyda'i Bwyllgor lechyd a Diogelwch cyfunol ei hun.

Bydd pob Pwyllgor Grŵp Gwasanaeth yn cwrdd ar sawl achlysur mewn blwyddyn i drafod perfformiad iechyd a diogelwch ar draws y Gwasanaethau a'r Adrannau y maent yn gyfrifol amdanynt. Bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu cofnodi at sylw'r Pwyllgor Corfforaethol.

### **Cyfarfodydd lechyd a Diogelwch Adrannol**

Pan fydd Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwyr Gwasanaeth yn nodi angen i gynnal cyfarfodydd lechyd a Diogelwch Adrannol, bydd y cyfarfodydd hynny'n cael eu rheoli o fewn strwythur Fframwaith lechyd a Diogelwch y Gwasanaeth lleol. Bydd cofnodion y cyfarfodydd hynny'n cael eu cofnodi at sylw Pwyllgor Grŵp y Gwasanaeth ac yn cael eu cyfleu i bob cyflogai.

### **Cynrychiolwyr lechyd a Diogelwch Undebau**

Byddwn yn ymgynghori â Chynrychiolwyr Undebau Llafur cydnabyddedig ar faterion iechyd a diogelwch sy'n cael effaith arnynt hwy neu aelodau eu hundeb.

Bydd pob Dogfen lechyd a Diogelwch Corfforaethol ddrafft ar gael ar gyfer ymgynghoriad ar Safle Mewnruyd CSDd.

### **Asesu Risgiau**

Yn unol â'r Rheoliadau Rheoli lechyd a Diogelwch yn y Gwaith, bydd pob Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr Gweithdrefnol yn sicrhau bod asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cynnal ar gyfer risgiau i IDaLI cyflogeion ac eraill nad ydynt yn cael eu cyflogi gan CSDd. Bydd yr asesiadau risg yn cael eu cofnodi a'u hadolygu ar adegau priodol.

Rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am yr asesiadau risg, ond mae'n bosibl y bydd y dasg yn cael ei dirprwyo i unigolyn/unigolion cymwys, sy'n meddu ar y wybodaeth, yr hyfforddiant a'r profiad o weithgarwch gwaith.

### **Asesiadau o'r Risg o Dâ**

Y Tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau arbenigol o'r risg o dân ym mhob eiddo y mae'r Sir yn berchen arno ac eiddo arall y gallai Cyflogeion y Cyngor neu Ddefnyddwyr Gwasanaeth eu defnyddio. Mae'r asesiadau hyn o'r risg o dân yn ofynnol o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ac mae manylion pellach ar gael ar hyn ym Mholisi Tân CSDd.

## **Mesurau Rheoli**

Bydd asesiadau risg yn anochel yn nodi camau gweithredu i leihau risg. Bydd unrhyw fesurau a chamau gweithredu rheoli yn cael eu cofnodi, eu neilltuo i berchennog gweithredu ac yn derbyn dyddiad cwblhau disgwylidig. Mae nodi peryglon, risgiau a mesurau rheoli yn hwyluso datblygiad systemau gwaith diogel.

## **Systemau Gwaith Diogel**

Pan na fydd yn bosibl dileu neu reoli peryglon arwyddocaol yn ffisegol, bydd system waith ddiogel yn cael ei datblygu, ei chyflwyno, ei monitro a'i hadolygu yn ôl yr angen. Bydd y rheolwr llinell yn sicrhau bod hyn yn cael ei baratoi gan unigolyn neu unigolion cymwys.

Mae'n rhaid i'r system waith ddiogel fynd i'r afael â'r peryglon a'r risgiau a nodwyd yn yr asesiadau risg, y bobl sy'n gysylltiedig â hyn, yr offer, deunyddiau a'r dulliau i'w defnyddio a gallai gynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig a chaniatâd mwy ffurfiol i systemau gwaith ar gyfer gweithrediadau risg uchel.

Mae'n rhaid i'r system waith ddiogel fod yn ddull rhesymegol sydd wedi'i ystyried yn briodol ar gyfer cynnal y gwaith yn ddiogel, gyda chyfarwyddiadau addas yn cael eu cyfleu i'r unigolion sy'n gwneud ac yn goruchwyllo'r gwaith.

## **Gweithio Unigol a Systemau Diogelu**

Mae gweithiwr unigol yn rhywun sy'n gweithio ar eu pen eu hunain heb oruchwyliaeth agos neu uniongyrchol am gyfnodau byr neu estynedig. Mae gweithio unigol yn ddull gweithio derbynol, cyhyd ag y bydd y cyflogwr yn sicrhau bod eu cyflogeion sy'n gweithio'n unigol yn derbyn gofal o ran eu Hiechyd, Diogelwch a'u Lles. Bydd CSDd yn sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio unigol, ar lefel timau gweithredol, yn cael eu hasesu a bydd yn cymryd camau i reoli'r risgiau.

Mae'r Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf yn rhoi dyletswydd statudol ar bawb sy'n gweithio gyda grwpiau hyglwyf i gofrestru a bod yn destun proses fetio uwch gyda chosbau troseddol am ddiffyg cydymffurfiaeth. Bydd CSDd yn sicrhau bod pob cyflogai sy'n gweithio gyda grwpiau hyglwyf yn cael eu fetio'n briodol a'u hyfforddi'n ddigonol ar ofynion diogelu.

Cyfeirir at ganllawiau corfforaethol ar gyfer gweithio unigol a diogelu yn adran iechyd a diogelwch system fewnrwyd CSDd.

## **Gweithdrefnau Corfforaethol**

Pan fydd angen disgrifio system waith ddiogel neu broses reoli mewn manylder, gellir ysgrifennu gweithdrefn. Mae Gweithdrefnau Corfforaethol yn gyffredin i bob rheolwyr a chyflogeion ar draws yr Awdurdod, waeth beth yw eu Grŵp Gwasanaeth, Adran neu leoliad. Enghraifft o Weithdrefn Gorfforaethol yw'r dull a ddefnyddir ar gyfer cofnodi ac adrodd damweiniau ac anafiadau.

Rhagwelir na fydd llawer o Weithdrefnau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol oherwydd bydd y rhan fwyaf o brosesu gwaith yn cael eu rheoli gan weithdrefnau Gwasanaeth/Adran fel rhan o system waith ddiogel gyda'r risgiau lleol wedi'u hasesu a'u rheoli.

Mae Gweithdrefnau Corfforaethol wedi'u nodi yn adran iechyd a diogelwch system fewnrwyd CSDd.

### **Gweithdrefnau Grŵp ac Adrannol Gwasanaeth**

Nid yw'n ymarferol i'r Tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol sefydlu gweithdrefnau a fydd yn mynd i'r afael â phob tasg neu sefyllfa. Fel rhan o'u Fframweithiau lechyd a Diogelwch Lefel Gwasanaeth, bydd Gwasanaethau a thimau gweithredol unigol yn datblygu gweithdrefnau lleol i reoli eu gweithgareddau a rheoli peryglon arwyddocaol sy'n cael eu nodi mewn asesiadau risg. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan Gynghorwyr lechyd a Diogelwch Corfforaethol yn ôl y galw.

### **Gweithdrefnau a Systemau Caniatâd i Weithio**

Mae system caniatâd i weithio yn system ysgrifenedig ffurfiol sy'n cael ei defnyddio fel rhan o system waith ddiogel i reoli mathau penodol o waith a allai fod yn beryglus.

Mae gan lechyd a Diogelwch Corfforaethol dempled o ganiatâd i weithio ar gyfer nodi gwaith risg uchel (e.e. gwaith mewn mannau cyfyngedig, mynediad i'r to), sydd ar gael ar y fewnwyd. Bydd lechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cynorthwyo rheolwyr gweithredol i gyflwyno systemau rheoli digonol yn ôl y galw.

### **Gweithdrefnau Rheoli Contractwyr**

Bydd cymhwyster pob Contractwr, Ymgynghorydd a Chyflenwr sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor yn cael ei asesu cyn iddynt gael eu cyflogi. Mae'r broses gymeradwyo yn golygu bod angen cwblhau holiadur cyn-cymhwyso fel rhan o broses fetio cymhwyster ac adnoddau.

Bydd yn ofynnol i gontractwyr gynnal asesiad risg o'u gweithgareddau a darparu systemau gwaith diogel cytûn. Bydd gwaith contractwyr yn cael ei ddiffinio a'i gyfyngu gan amserlen.

### **Gweithdrefnau Argyfwng**

Mae gweithdrefnau argyfwng ar lefel gorfforaethol ar gyfer digwyddiadau mawr a threfniadau wrth gefn sifil yn cael eu hwyluso gan yr Uned Cyd-Gynllunio ar gyfer Argyfwng yn Sir y Fflint. Bydd templed o gynllun generig ar gyfer argyfwng ar gael ar y fewnwyd.

Bydd Gwasanaethau ac Adrannau yn paratoi gweithdrefnau argyfwng lleol ar gyfer eu gweithrediadau, yn seiliedig ar y risgiau unigol a nodwyd ganddynt.

Bydd pob Rheolwr Cyfleusterau ac Adeiladau yn paratoi gweithdrefnau argyfwng yn seiliedig ar y risgiau lleol a nodwyd yn eu cyfleusterau.

### **3.3 Mesur ac Adolygu**

Bydd y trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu'n weithredol drwy gyfuniad o waith monitro rhagweithiol ac adweithiol, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn galluogi i amcanion polisïau iechyd a diogelwch gael eu cyflawni.

#### **Adrodd ar Ddamweiniau/Digwyddiadau**

Mae CSDd yn defnyddio proses adrodd damweiniau / digwyddiadau ar-lein. Bydd pob damwain a digwyddiad yn cael eu cofnodi a'u hadrodd i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gan ddefnyddio'r system adrodd ar-lein. Pan na fydd yn ymarferol i gael mynediad i'r system adrodd ar-lein, mae ffurflen dros dro ar gael nes y gellir cael mynediad i'r system ar-lein. Bydd digwyddiadau yn cael eu hadrodd cyn gynted ag y bydd yn rhesymol yn ymarferol ar ôl y digwyddiad.

Mae digwyddiadau y gellir eu hadrodd o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) yn cael eu hadrodd gan y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i'r HSE.

Bydd gwybodaeth ystadegol am bob damwain/digwyddiad ac adroddiadau RIDDOR yn cael eu colau a'u cyflwyno i'r pwyllgorau diogelwch. Defnyddir y data hefyd er mwyn nodi tueddiadau a gwybodaeth arall a ddefnyddir fel dull o dargedu a diddymu problemau cyson.

#### **Ymchwilio ac Adrodd am Ddamweiniau**

Bydd y rheolwr llinell/goruchwyliwr Gweithredol yn ymchwilio i bob damwain a digwyddiad fel cam cyntaf. Bydd lefel yr ymchwiliad a'r broses adrodd yn uniongyrchol gyfrannol i ddifrifoldeb y digwyddiad. Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fydd yn ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n cael eu hystyried yn deilwng o ymchwiliad mwy cyflawn a phob digwyddiad RIDDOR.

Pan fydd ymweliad, ymchwiliad neu fenter HSE yn arwain at ofyniad gweithredol o ryw fath, bydd y tîm corfforaethol yn darparu ymateb addas, gydag adnoddau digonol, neu'n cydlynu ymateb Lefel Gwasanaeth trylwyr i'r HSE, fel y bo'n briodol.

Defnyddir unrhyw wersi sy'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau ac ymchwiliadau i gefnogi camau gweithredol cywirol er mwyn rhwystro hyn rhag digwydd eto.

#### **Cwynion**

Bydd unrhyw gwynion a dderbynnir ynglŷn â darpariaethau neu arferion IDaLI yn cael eu hymchwilio a bydd camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd.

### **Teithiau Diogelwch**

Mae teithiau diogelwch yn ffurfio rhan o'r broses fonitro ragweithiol. Cynhelir teithiau diogelwch ar lefel weithredol a bydd yn cynnwys rheolwyr, cynrychiolwyr undebau a chyflogeion, fel y bo'n briodol. Bydd y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol hefyd yn cynnal teithiau diogelwch fel rhan o'r rhaglen monitro timau.

Bydd teithiau diogelwch yn cael eu cofnodi a byddant yn arwain at gynllun gweithredu, cyngor diogelwch ac adroddiad ffurfiol gyda chymau gweithredu gydag amserlen benodol.

### **Ymgyrchoedd Diogelwch**

Bydd ymgyrchoedd diogelwch yn cael eu datblygu a'u darparu mewn ymateb i faterion amserol.

### **Iechyd sy'n Gysylltiedig â Gwaith**

Byddwn yn asesu ein risgiau iechyd galwedigaethol. Pan fyddwn yn nodi risg sylweddol i iechyd, byddwn yn gweithredu i atal, lleihau neu reoli'r risgiau i lefel dderbyniol. Pan fydd angen am wylidwriaeth iechyd wedi'i nodi mewn asesiad risg neu wedi'i amlygu mewn ffurflen datganiad iechyd gweithiwr newydd, bydd proses gwylidwriaeth iechyd briodol yn cael ei gweithredu gan yr Adran Iechyd Galwedigaethol.

Bydd canlyniadau'r broses Gwylidwriaeth Iechyd yn cael eu hadrodd i'r cyflogai a'u rheolwr gyda'r camau gweithredu a argymhellir. Bydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi ar nodiadau achos y cyflogai gan ddefnyddio cronfa ddata cofnod Meddygol OPAS a bydd y cyflogai yn cael ei fonitro ymhellach ar gyfnodau y cytunwyd arnynt.

### **3.4 Archwilio**

Bydd y Tîm Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliadau mewnol o systemau a phrosesau rheoli IDaLI fel rhan o'u proses archwilio barhaus.

Bydd cynllun archwilio yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno er mwyn monitro gweithgareddau a chydymffurfiaeth o fewn adrannau.

### **Asesiadau Systemau Diogelwch**

Mae asesiadau o systemau diogelwch cyfleusterau sy'n cael eu cynnal gan y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael eu cynllunio a'u cynnal ar adeg sy'n gyfleus i bawb. Mae pynciau penodol yn cael eu hasesu yn ystod yr ymweliadau.

Amcanion yr asesiadau iechyd a diogelwch yw:

- Cymharu cyfleusterau neu weithgareddau unigol yn y sefydliad i'r arfer gorau.
- Darparu tystiolaeth bod y sefydliad yn bodloni gofynion statudol. (Bydd lefel y dystiolaeth ofynnol yn dibynnu ar gymhlethdod a risg y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal a'r ymatebion a dderbyniwyd o'r broses asesu).
- Galluogi i werthusiadau o systemau rheoli benderfynu ar unrhyw ddiffygion a gweithredu atebion cost effeithiol ac effeithlon.
- Cymharu arferion yn erbyn gweithdrefnau a dogfennu unrhyw wahaniaethau.
- Nodi safonau, canllawiau neu bolisiau newydd neu well a allai hybu amgylchedd mwy diogel yn y sefydliad.

Bydd yr asesiadau iechyd a diogelwch yn cynhyrchu adroddiad ffurfiol gyda chynllun gweithredu ar gyfer rheolwyr perthnasol. Defnyddir canlyniadau'r broses asesu yn yr adolygiad a'r diwygiad o'r Polisi Iechyd a Diogelwch.

### **3.5 Adolygu Polisi**

Bydd y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod y sefydliad a'r trefniadau yn parhau i fod yn berthnasol a chyfredol.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori, bydd y Polisi diwygiedig, a fydd wedi'i ddyddio a'i lofnodi, yn cael ei ail-gyflwyno drwy system fewnrwyd CSDd.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## Health & Safety Culture



Adapted from a Latitude Productions Ltd. presentation

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## **Appendix 5**

# Performance Scrutiny Committee report 09.06.2016

## Equality Impact Assessment

# CH&S committee report

**Contact:** Gerry Lapington, Environment and Highways,  
CH&S

**Updated:** 09.06.2016

## 1. What type of proposal / decision is being assessed?

Other

## 2. What is the purpose of this proposal / decision, and what change (to staff or the community) will occur as a result of its implementation?

To provide an annual update information to the Performance Scrutiny committee on H&S management in DCC

## 3. Does this proposal / decision require an equality impact assessment? If no, please explain why.

*Please note: if the proposal will have an impact on people (staff or the community) then an equality impact assessment **must** be undertaken*

No

This report is an annual update report on existing activities

## 4. Please provide a summary of the steps taken, and the information used, to carry out this assessment, including any engagement undertaken

*(Please refer to section 1 in the toolkit for guidance)*

No assessment needed

## 5. Will this proposal / decision have a positive impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?

*(Please refer to section 1 in the toolkit for a description of the protected characteristics)*

<Please summarise any likely positive impact and identify which protected characteristics will benefit>

**6. Will this proposal / decision have a disproportionate negative impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?**

|                                                                                                                       |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <Please summarise any disproportionate negative impact and identify which protected characteristics will be affected> |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

**7. Has the proposal / decision been amended to eliminate or reduce any potential disproportionate negative impact? If no, please explain why.**

|                 |                                 |
|-----------------|---------------------------------|
| <Please Select> | <If yes, please provide detail> |
|-----------------|---------------------------------|

**8. Have you identified any further actions to address and / or monitor any potential negative impact(s)?**

|                 |                                                                      |
|-----------------|----------------------------------------------------------------------|
| <Please Select> | <If yes please complete the table below. If no, please explain here> |
|-----------------|----------------------------------------------------------------------|

| Action(s)                                      | Owner        | By when?   |
|------------------------------------------------|--------------|------------|
| <Please describe>                              | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Please describe>                              | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Please describe>                              | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Please describe>                              | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Unrestrict editing to insert additional rows> | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |

**9. Declaration**

Every reasonable effort has been made to eliminate or reduce any potential disproportionate impact on people sharing protected characteristics. The actual impact of the proposal / decision will be reviewed at the appropriate stage.

|                     |          |
|---------------------|----------|
| <b>Review Date:</b> | 09.06.16 |
|---------------------|----------|

| Name of Lead Officer for Equality Impact Assessment | Date     |
|-----------------------------------------------------|----------|
| Gerry Lapington                                     | 09.06.16 |

**Please note you will be required to publish the outcome of the equality impact assessment if you identify a substantial likely impact.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                   |                                                                                       |
|-----------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Pwyllgor Archwilio Perfformiad</b>                                                 |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>9 Mehefin 2016</b>                                                                 |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol /<br/>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Prif Reolwr: Gwasanaethau Cefnogi</b>                                              |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y<br/>Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/16</b>        |

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1. Mae pob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru yn gorfod llunio adroddiad blynyddol sy'n crynhoi eu safbwyntiau ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a gwelliannau i'w blaenoriaethu.
- 1.2. Mae adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2015/2016 ynghlwm yn Atodiad 1. Diben yr adroddiad yw rhoi darlun teg i'r cyhoedd o wasanaethau yn Sir Ddinbych ac arddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau a wynebir.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 I alluogi'r Aelodau i archwilio'r adroddiad drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhellir bod yr Aelodau'n ystyried a:

- 3.1 yw'r adroddiad yn rhoi disgrifiad clir o berfformiad yn 2015/16;
- 3.2 yw'r adroddiad yn codi unrhyw faterion/pryderon perfformiad sydd angen eu harchwilio ymhellach.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

- 4.1 At ei gilydd, dengys yr adroddiad ein bod wedi parhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uchel yn ystod 2015/16, a'n bod wedi perfformio'n rhagorol mewn meysydd sy'n bwysig i'n cymunedau. Rydym hefyd wedi parhau i wneud cynnydd go iawn gyda ein nod i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol mewn ymateb i'r heriau a osodir gan y sefyllfa ariannol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. 4.2 Wrth gwrs, ni fu i bopeth fynd rhagddo fel y dylai ac mae'r adroddiad yn nodi nifer o feysydd y gallem eu gwella. Fodd bynnag, mae gennym gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud yn benodol â'n cyfraniad at gyflawni'r ddwy flaenoriaeth gorfforaethol ganlynol:

- Mae pobl ddiameddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl; a
- Moderneiddio'r Cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

## **6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid yw cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad ei hun yn costio unrhyw beth (ac eithrio amser swyddogion), ac nid yw'n effeithio ar wasanaethau eraill. Bydd y cynlluniau a'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer y dyfodol i'r gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr adroddiad yn cael eu cyflawni o fewn y cyllidebau presennol. Fodd bynnag, mae rhai o'r themâu a gwmpesir gan yr adroddiad, ee cefnogi annibyniaeth a gwella lles, yn agendâu corfforaethol yn hytrach na chyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Ar gyfer y Cyngor cyfan, bydd hyn yn golygu sicrhau bod ein holl wasanaethau, er enghraifft gwasanaethau tai, priffyrdd, cynllunio, gwasanaethau amgylcheddol a hamdden, wedi eu cynllunio i hyrwyddo annibyniaeth.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2014/15 ac nid yw cyhoeddi'r adroddiad ei hun yn effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir. Fodd bynnag, o ran y cynlluniau yn y dyfodol a grybwyllwyd yn yr adroddiad, bydd angen AEC ar gyfer unrhyw benderfyniadau/newid a fydd yn effeithio ar bobl â nodweddion a ddiogelir. Bydd y rhain yn cael eu cynnal ar gyfer pob prosiect unigol yn ôl yr angen.**8Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Rydym wedi defnyddio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr am ein gwasanaethau fel rhan o'n system sicrhau ansawdd sy'n bodoli eisoes.

8.2 Cynigir bod yr adroddiad drafft yn cael ei ddsbarthu i bartneriaid (e.e. iechyd, 3ydd sector) ar gyfer sylwadau, cyn ei gyhoeddi.

## **9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae'n rhaid i oblygiadau cost unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad gael eu hystyried yng nghyd-destun sefyllfa gyllidebol ehangach y cyngor.



## **10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1 Mae cofrestr risg manwl ar gyfer y Gwasanaeth Oedolion a Busnes ac Addysg a Gwasanaethau Plant. Gan fod hwn yn adroddiad am Wasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, caiff unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r materion a drafodir gan yr adroddiad hwn (a chamau gweithredu i'w lliniaru a'u rheoli) eu cynnwys yn y cofrestri risg gwasanaeth.

## **11 Pŵer i wneud Penderfyniad**

- 11.1 Mae Canllawiau Statudol (gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol) yn cael ei gyhoeddi o fewn y Cod Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 11.2 Mae Erthygl 6.3.4 (b) yn gosod pwerau archwilio o ran monitro perfformiad ac amcanion polisi.

### **Swyddog Cyswllt:**

Prif Reolwr - Cymorth Busnes

Ffôn: 07825 457448

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Director of Social Services  
Annual Performance  
Report 2015-16

## LANGUAGE SIGNPOST

This document is available on request in other languages and / or formats



To make comments and suggestions or for further information please contact:

By email:  
[corporate.improvement@denbighshire.gov.uk](mailto:corporate.improvement@denbighshire.gov.uk)

Os ydych angen gwybodaeth bellach, gofynnwch os gwelwch yn dda i rhywun yr ydych yn gwybod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg i ffonio 01824 706161

If you need further information, please ask someone you know who speaks English or Welsh to telephone 01824 706161

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angielsku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01824 706161

By telephone:  
01824 706161

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01824 706161

Corporate Improvement Team  
Denbighshire County Council  
County Hall  
Wynnstay Road  
Ruthin  
LL15 1YN

إذا كنت بحاجة إلى مزيد من المعلومات ، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث إنجليزية أو الويلزية الهاتف 01824 706161

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：  
01824706161

